Arolygiaeth Prawf EF

# Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc yn y Gwasanaeth Prawf

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EF

Medi 2024

**Cydnabyddiaethau**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Maria Jerram, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Helen Davies yw’r rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a’u cydweithrediad, ni fyddai’r arolygiad wedi bod yn bosib. Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw’r unigolion dan sylw.

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

ISBN: 978-1-916621-03-9

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lwytho i lawr yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

**Cyhoeddwyd gan:**

**Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi**
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Cynnwys

**Cynnwys** ... 3
**Rhagair** ... 4
**Ffeithiau am y Cyd-destun** ... 5
**Crynodeb gweithredol** ... 7
**Argymhellion** ... 10
**1. Cyflwyniad** ... 11
1.1. Pam y thematig hwn? ... 11
1.2. Cefndir ... 11
1.3. Nodau ac amcanion ... 13
1.4. Amlinelliad o'r adroddiad ... 14
**2. Polisi, strategaeth, llywodraethu ac arweinyddiaeth** ... 15
2.1. Arweinyddiaeth genedlaethol ... 15
2.2. Trefniadau comisiynu ... 17
2.3. Arweinyddiaeth ranbarthol a PDU ... 19
2.4. Arfogi staff i weithio gydag oedolion ifanc ... 20
2.5. Casgliadau a goblygiadau ... 23
**3. Rhannu gwybodaeth, ymyriadau a gwasanaethau** ... 24
3.1. Rhannu gwybodaeth ... 24
3.2. Ymyriadau ... 25
Gwaith di-dâl ... 26
3.3. Cyd-destun y llys ... 27
3.4. Mynediad at wasanaethau a gweithio gydag asiantaethau partner ... 27
3.5. Casgliadau a goblygiadau ... 29
**4. Ansawdd adroddiadau a goruchwylio achosion** ... 31
4.1. Asesiad ... 31
4.2. Cynllunio ... 34
4.3. Cyflawni dedfrydau ... 34
4.4. Adolygu a chanlyniadau ... 37
4.5. Gwaith pontio ... 39
4.6 Casgliadau a goblygiadau ... 39
**Cyfeiriadau** ... 41
**Atodiad 1: Geirfa** ... 44
**Atodiad 2: Methodoleg** ... 46

# Rhagair

Mae oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn wynebu heriau unigryw, gan gynnwys cyfraddau uwch o gyflyrau iechyd meddwl difrifol, niwroamrywiaeth a thrawma o'u cymharu ag unigolion hŷn. Gan ystyried hyn a'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf ar aeddfedrwydd, ni ellir tybio y bydd gwasanaethau prawf cyffredinol yn diwallu eu hanghenion yn ddigonol.

Mae'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc (2022), a weithredir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, yn cydnabod yn gywir amgylchiadau unigryw oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a'r angen am ymateb pwrpasol wedi'i deilwra'n well. Mae'r fframwaith yn nodi awydd am ddull cyfannol sy'n seiliedig ar drawma o ddarparu gwasanaethau i oedolion ifanc sy'n ystyried eu hoedran, eu datblygiad a'u haeddfedrwydd yn llawn. Er bod y fframwaith yn briodol o uchelgeisiol, mae ei roi ar waith yn heriol i'r Gwasanaeth Prawf.

Roedd ein harolygiad yn canolbwyntio ar oedolion ifanc rhwng 18 a 21 oed. Roedd bron i hanner yr achosion a arolygwyd gennym yn cynnwys cysylltiad helaeth â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn y gorffennol. Nid oedd anabledd a phrofiadau o esgeulustod a cham-drin yn anarferol. Fodd bynnag, dechreuodd gorchmynion llys yn aml heb i'r holl wybodaeth berthnasol gael ei derbyn neu ei dadansoddi, gan effeithio ar ansawdd y cyngor i'r llys, asesiadau a chynlluniau. Anaml iawn y ceisiwyd gwybodaeth gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, er bod llawer o oedolion ifanc ar brawf wedi bod yn gysylltiedig â hwy o'r blaen. Mae'r rhain, gyda'i gilydd, yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd oedolion ifanc yn cael yr ymyriadau cywir, yn llwyddo ac yn byw bywydau heb droseddu.

Fe wnaethom gwrdd â llawer o ymarferwyr prawf a oedd yn ymroddedig ac yn frwdfrydig ynghylch gweithio gyda'r grŵp oedran hwn. Roeddent yn deall pwysigrwydd meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus â nhw. Yn eu tro, dywedodd oedolion ifanc wrthym fod y berthynas â'u gweithiwr yn 'dyngedfennol' o ran gwneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau.

Pwysleisiodd staff a rheolwyr gymhlethdod a gofynion gweithio gydag oedolion ifanc. Yn gyffredinol, nid oeddent wedi cael digon o hyfforddiant i weithredu agweddau gorfodol ar y fframwaith, fel cwblhau asesiadau aeddfedrwydd. Nid yw'r cwestiynau pwysig yn cael eu gofyn bob amser ac mae hyn yn tanseilio ansawdd y gwaith a ddarperir. Lle mae adnoddau ar gael, nid yw'r holl staff yn ymwybodol ohonynt nac yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio. Yn gyffredinol, mae Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn cael eu tanddefnyddio ac nid ydynt bob amser yn gallu diwallu anghenion penodol oedolion ifanc.

Er nad oeddent yn eang, fe wnaethom nodi rhai mentrau creadigol ac enghreifftiau rhagorol o ymarfer effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar aeddfedrwydd a datblygiad oedolion ifanc. Roedd yr enghreifftiau gorau o ymarfer yn aml yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau a gwasanaethau arbenigol fel y rhai ar gyfer plant sy'n gadael gofal.

I weithredu'r fframwaith yn llawn, bydd angen alinio'n agosach rhwng nodau polisi ac arferion ar lawr gwlad. Mae angen sefydlu strwythur llywodraethu clir gydag atebolrwydd a rolau diffiniedig, ynghyd â mecanweithiau monitro cryfach i olrhain cynnydd a mynd i'r afael â diffygion. Byddai dadansoddi cyfraddau atgyfeirio, dechrau a chwblhau ar gyfer oedolion ifanc yn rhoi gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd ymyriadau presennol ac yn helpu o ran comisiynu yn y dyfodol. Mae gwneud y gwaith yn dda yn gofyn am staff, hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol.

Bwriad ein hargymhellion, os cânt eu gweithredu, yw gwella ansawdd y gwaith gydag oedolion ifanc. Bydd angen cymryd camau yn awr ar yr argymhellion hyn er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc yn llwyddiannus.

Martin Jones

**Martin Jones CBE**
Prif Arolygydd Prawf EF
Medi 2024

# Ffeithiau am y Cyd-destun

### Oedolion ifanc: ystadegau allweddol

| | |
|---|---|
| **5,705,198** | Nifer y bobl rhwng 18 a 25 oed yn genedlaethol.<br>Mae hyn yn cyfateb i 9.6 y cant o gyfanswm y boblogaeth[1] |
| **21,261** | Nifer yr oedolion ifanc 18 i 24 oed ar orchymyn cymunedol neu ddedfryd ohiriedig ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cynrychioli 19.5 y cant o gyfanswm baich achosion gorchmynion cymunedol neu orchmynion dedfryd ohiriedig[2] |

### Oedolion ifanc a'r ddalfa

| | |
|---|---|
| **3,090** | Nifer y bobl ifanc 18 i 20 oed sydd yn y ddalfa o gyfanswm o 87,869 (3.5 y cant o'r cyfanswm) o oedolion ar 31 Mawrth 2024[3] |
| **728** | Nifer y bobl ifanc 18 i 20 oed a alwyd yn ôl i'r ddalfa rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cyfateb i 2.8 y cant o gyfanswm yr achosion adalw[4] |
| **Derbyniadau i'r ddalfa** | Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2023, roedd 5.1 y cant o'r derbyniadau a ddedfrydwyd i'r ddalfa a 7.4 y cant o'r derbyniadau remand i'r ddalfa yn bobl rhwng 18 ac 20 oed[5] |

**Ffigur 1: Nifer yr oedolion ifanc a ddechreuodd orchymyn dedfryd ohiriedig neu orchymyn cymunedol dros y degawd diwethaf, fel canran o'r holl achosion sy'n dechrau gorchmynion o'r fath[6]**




[1] Cyfrifiad y DU 2021: Oedran yn ôl Blwyddyn Sengl. Set ddata TS007
[2] Offender Management Statistics Quarterly: October to December 2023: Probation 2023 (Tabl A6_16)
[3] Offender Management Statistics Quarterly: October to December 2023: Prison Population 31 March 2024 (Tabl 1_Q_1)
[4] Offender Management Statistics Quarterly: October to December 2023: Prison Receptions: October to December 2023 (Tabl 2 Q 10)
[5] Offender Management Statistics Quarterly: October to December 2023: Prison Receptions: October to December 2023 (Tablau 2_Q_6 a 2_Q_8)

[6] Offender Management Statistics Quarterly: October to December 2023: Probation 2023 (Tabl A6_4)

Mae'r gostyngiad yn nifer yr oedolion ifanc yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer y plant yn y system cyfiawnder troseddol, fel y dangosir isod.

**Ffigur 2: Y gostyngiad yn nifer y plant sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid dros y degawd diwethaf[7]**




**Prif ganfyddiadau'r arolygiad[8]**

| | |
|---|---|
| A gwblhawyd asesiad aeddfedrwydd i hysbysu'r adroddiad i'r llys? | Do = 38% |

| A oedd dull gweithredu digon gwybodus am aeddfedrwydd yn amlwg drwy gydol y gweithgaredd asesu? | | |
|---|---|---|
| Oedd = 30% | Na = 42% | Yn rhannol = 27% |

| A oedd dull gweithredu digon gwybodus am aeddfedrwydd yn amlwg drwy gydol y gweithgaredd cynllunio? | | |
|---|---|---|
| Oedd = 29% | Na = 39% | Yn rhannol = 32% |

| A oedd dull gweithredu digon gwybodus am aeddfedrwydd yn amlwg drwy gydol y gweithgaredd darparu dedfryd? | | |
|---|---|---|
| Oedd = 36% | Na = 31% | Yn rhannol = 33% |

| A oedd dull gweithredu digon gwybodus am aeddfedrwydd yn amlwg drwy gydol yr adolygiad, gan ystyried anghenion yr oedolyn ifanc a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol? | | |
|---|---|---|
| Oedd = 34% | Na = 29% | Yn rhannol = 37% |

| | |
|---|---|
| Ar gyfer oedolion ifanc a ddedfrydwyd i waith di-dâl lle nodwyd aeddfedrwydd isel, a gymerwyd unrhyw gamau gan staff gwaith di-dâl i gefnogi ymgysylltu a chydymffurfio? | Do = 12% |
| Lle bo'n berthnasol, a wnaeth yr ymarferydd archwilio unrhyw brofiadau o wahaniaethu a deall eu heffaith ar yr oedolyn ifanc? | Do = 16% |

[7] Youth Justice Statistics: 2022 to 2023, CH2 First-time entrants to the youth justice system (Tabl 2.1), and CH3 Children cautioned or sentenced (Tabl 3.1)
[8] Efallai na fydd canrannau cyfuno i greu 100 oherwydd talgrynnu.

# Crynodeb gweithredol

## Cyd-destun

Mae'r arolygiad hwn yn nodi ein gwerthusiad cyntaf o wasanaethau ar gyfer oedolion ifanc fel grŵp penodol ac mae'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith a ddarperir gan y Gwasanaeth Prawf. Roedd archwiliadau blaenorol o waith pontio rhwng ieuenctid ac oedolion (Arolygiaeth Prawf EF 2012, 2016) yn tynnu sylw at ddiffygion sylweddol yn ansawdd y gwaith o bontio unigolion o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid (YJS) i wasanaeth prawf i oedolion. Tan yn ddiweddar, ychydig o sylw a roddwyd i brofiadau oedolion ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf, ond mae hyn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Model Gweithredu Targed ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr, a'r Fframwaith Prawf Oedolion Ifanc (HMPPS, 2022), yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan ymarferwyr prawf wrth weithio gydag oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed. Maent yn dangos pwyslais cynyddol ar fynd i'r afael ag anghenion unigryw'r demograffig hwn. Mae'r fframwaith yn cydnabod yr ymchwil ddiweddaraf ar niwroddatblygiad ac aeddfedrwydd, gan dynnu sylw at ei arwyddocâd mewn gwaith prawf a'r addasiadau sydd eu hangen yn ymarferol i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn yn gynhwysol ac yn addas.

## Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad hwn ym mis Ionawr a mis Mawrth 2024, roeddem wedi edrych ar ansawdd y gwaith a ddarparwyd gan unedau cyflawni prawf (PDU) yn Bury a Rochdale; Newham; Lerpwl; Swydd Gaerloyw; Caerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland; a Hull ac East Riding. Dewiswyd ardaloedd yn bennaf oherwydd nifer yr oedolion ifanc yn eu baich achosion.

Fe wnaethom adolygu 115 o achosion o oedolion ifanc rhwng 18 a 21 oed a oedd dan oruchwyliaeth gymunedol ac a oedd wedi cael eu dedfrydu i'r ddalfa neu wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn y 12 mis cyn ein gwaith maes. Ar ben hynny, roeddem wedi archwilio naw achos lle'r oedd oedolion ifanc wedi pontio o'r GCI i'r gwasanaeth prawf ac wedi asesu ansawdd 73 o adroddiadau llys. Ni wnaethom adolygu ffeiliau achos y GCI nac arolygu ansawdd eu gwaith pontio. Nid ydym wedi arolygu na rhoi sylwadau ar ansawdd y gwaith a wnaed gydag oedolion ifanc yn y ddalfa.

Buom yn cyfweld â 78 o ymarferwyr prawf sy'n dal achosion, staff arbenigol, rheolwyr canol ac uwch reolwyr, arweinwyr oedolion ifanc cenedlaethol, ac asiantaethau partner. Ar ben hynny, fe wnaethom gynnal cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr yn nhimau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS).

Cyn y gwaith maes, roeddem wedi cysylltu â'r GCI lleol i ofyn a oeddent wedi gweithio gyda'r oedolion ifanc unigol yn y gorffennol ac a oedd yr oedolion ifanc wedi cael cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn y gorffennol. Gwnaethom hyn i asesu ansawdd rhannu gwybodaeth ac i ganfod a oedd ymarferwyr prawf wedi ystyried profiadau cefndir yr oedolion ifanc.

Gwnaethom ymgysylltu â gwasanaethau Llais y Defnyddiwr i gynnal arolygon a chyfweliadau gyda 259 o oedolion ifanc ar ein rhan, gan gasglu eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a gawsant gan y gwasanaeth prawf. Bydd adroddiad Llais y Defnyddiwr yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Rydym wedi ymgorffori eu hadborth yn ein canfyddiadau allweddol ac wedi defnyddio dyfyniadau a gasglwyd ganddynt gan oedolion ifanc. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r wybodaeth werthfawr mae'r oedolion ifanc wedi ei rhoi.

## Polisi, strategaeth, llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae'r ymrwymiad a nodir yn y Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc, i fynd i'r afael ag anghenion unigryw oedolion ifanc drwy fabwysiadu dull gwahanol o ddarparu gwasanaethau prawf ar eu cyfer, yn gymeradwy. Fodd bynnag, mae rhoi'r fframwaith hwn ar waith wedi bod yn heriol i'r

gwasanaethau prawf. Pan gyflwynwyd y fframwaith, nid oedd digon o ddealltwriaeth na sylw'n cael ei roi i ganfod beth oedd ei angen i wneud iddo weithio. O ganlyniad, er bod rhai pocedi o waith da'n cael ei wneud, nid yw'n gyffredin. Er mwyn gwreiddio'r fframwaith yn ymarferol, mae angen sefydlu strwythurau llywodraethu gwell gyda llinellau atebolrwydd clir ar gyfer ei gyflawni, a dyrannu digon o adnoddau.

Yn ein sampl, dim ond hanner yr achosion â lefelau uchel o angen dynodedig a gafodd fudd o Wasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu. O'r rhai a atgyfeiriwyd, nid oedd traean yn ymgysylltu â'r gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd yn dda gweld bod rhai ardaloedd wedi elwa o wasanaethau a gomisiynwyd ar y cyd â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a oedd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer oedolion ifanc.

Disgrifiodd rhai rheolwyr rwystrau rhag cael gafael ar ddata sy'n benodol i oedran, er enghraifft ar gyfraddau atgyfeirio, ymgysylltu a chwblhau, ond cawsom ein sicrhau bod y data hwn ar gael. Bydd data wedi'i ddadgyfuno yn ôl grŵp oedran yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar anghenion penodol oedolion ifanc ac yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau o ran darparu gwasanaethau. Ar sail y data hwn, dylid defnyddio'r cylch comisiynu nesaf yn awr i ddenu gwasanaethau arbenigol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion penodol oedolion ifanc.

Ym mhob ardal a arolygwyd gennym, sefydlwyd prosesau ar y cyd i gefnogi'r pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion ac roedd y rhain wedi'u datblygu'n dda. Er bod y niferoedd wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes llawer o wybodaeth ar gael i helpu i ddeall y garfan hon o oedolion ifanc, gan fod prosesau cofnodi yn ei gwneud yn anodd cael gafael ar y data perthnasol. Felly, nid yw'n bosibl olrhain unrhyw dueddiadau, cynnydd neu ostyngiadau yn nifer yr achosion.

Pwysleisiodd staff a rheolwyr gymhlethdod a gofynion gweithio gydag oedolion ifanc. Yn gyffredinol, nid oeddent wedi cael digon o hyfforddiant i weithredu agweddau gorfodol ar y fframwaith, fel cwblhau asesiadau aeddfedrwydd. Lle roedd adnoddau ar gael, nid oedd yr holl staff yn ymwybodol ohonynt nac yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio. Er mwyn gwreiddio'r dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma sy'n cael ei argymell yn y fframwaith, mae'n rhaid i staff gael yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol i wneud y gwaith yn dda.

### Rhannu gwybodaeth, partneriaethau a gwasanaethau

Er mwyn gweithio'n effeithiol gydag oedolion ifanc mewn ffordd sy'n ystyriol o aeddfedrwydd a thrawma, rhaid i staff ddeall eu profiadau bywyd. O ystyried eu hoed, mae profiadau arwyddocaol yr oedolion ifanc yn ystod plentyndod yn arbennig o berthnasol oherwydd, i lawer, maent yn ddigwyddiadau diweddar. Er mwyn cwblhau adroddiad llys amserol neu asesiad cychwynnol, mae angen i staff gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol yn gyflym, gan bwysleisio pwysigrwydd cytundebau ac arferion rhannu gwybodaeth effeithiol ar draws asiantaethau.

Mewn bron i hanner yr achosion a arolygwyd gennym, roedd gan yr oedolyn ifanc gysylltiad blaenorol â gofal cymdeithasol plant, a oedd yn aml yn arwyddocaol. Gwelsom fod gorchmynion llys yn aml yn dechrau heb i'r holl wybodaeth berthnasol gael ei derbyn a/neu ei dadansoddi i hysbysu'r asesiad a'r ymyriadau. Anaml y ceisir gwybodaeth gan y GCI, er bod llawer o oedolion ifanc ar brawf wedi cael cyswllt â hwy o'r blaen. Mae gan y GCI gyfoeth o wybodaeth am y plant y maent yn gweithio gyda nhw, a phe bai staff prawf yn cael mynediad at hyn, byddai'n rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r oedolyn ifanc, eu hanghenion a'u profiadau bywyd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddatrysiadau blaenorol y tu allan i'r llys, nad ydynt bob amser yn ymddangos ar gofnodion yr heddlu ond a allai helpu i egluro unrhyw batrymau troseddu.

Mae prosesau wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal ymholiadau am gam-drin domestig gydag uned cam-drin domestig yr heddlu. Mae'r cyfnewid gwybodaeth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sefyllfaoedd lle mae person ar brawf wedi dioddef neu wedi cyflawni cam-drin domestig. Yr hyn nad yw'n cael ei ystyried fel arfer yw cysylltiad â cham-drin domestig, sy'n ffactor pwysig ym mhrofiadau bywyd llawer o oedolion ifanc sydd ar brawf ac y mae angen ei ystyried mewn perthynas â risg a diogelu.

Fe wnaethom nodi rhai enghreifftiau rhagorol o weithio mewn partneriaeth yn ymarferol, er enghraifft y gwaith rhwng gwasanaethau prawf a thimau gadael gofal i gefnogi oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal. Roedd gweithio mewn partneriaeth ar yr achosion hyn wedi arwain at well asesu a chynllunio, a oedd yn aml yn cynnwys dull cydlynol o ddarparu ymyriadau a gwell mynediad at wasanaethau drwy rannu adnoddau.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddulliau penodol wedi'u targedu ar gyfer menywod ifanc, y mae eu hanghenion yn aml yn cael sylw ar sail rhywedd, gyda sylw cyfyngedig yn cael ei roi i'w haeddfedrwydd. Er mwyn meithrin dull mwy pwrpasol o weithio gyda grwpiau amrywiol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, mae angen i ymarferwyr gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r darparwyr trydydd sector sydd ar gael sy'n arbenigo mewn ymgysylltu ag oedolion ifanc o wahanol gefndiroedd.

Byddai dadansoddi cyfraddau atgyfeirio, dechrau a chwblhau ar gyfer oedolion ifanc yn rhoi gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd rhaglenni gwaith grŵp a gwaith di-dâl. Mae angen rhoi sylw penodol i Waith Di-dâl oherwydd ei ddefnydd mwy mynych ar gyfer oedolion ifanc ac adroddiadau am heriau cysylltiedig ag ymgysylltu a chwblhau.

### Ansawdd adroddiadau llys a goruchwylio achosion

Yn ystod ein hymgynghoriad ag oedolion ifanc, fe wnaethon nhw ddweud wrthym fod eu perthynas ag ymarferwyr prawf yn hanfodol i'w helpu i ymgysylltu â gwasanaethau prawf, cael gafael ar ymyriadau a chymorth, a chwblhau eu dedfrydau. Iddyn nhw, mae'n aml yn 'dyngedfennol'. Roedd y ffocws ar feithrin perthnasoedd ystyrlon yn gryfder yn llawer o'r gwaith achos a arolygwyd gennym. Mae ymarferwyr wir eisiau'r gorau i oedolion ifanc, ac maen nhw'n llawn cymhelliant i weithio gyda nhw. Fodd bynnag, mae angen iddynt wneud mwy i sicrhau bod anghenion oedolion ifanc yn cael eu deall a'u diwallu, bod eu diogelwch a'u lles yn cael eu blaenoriaethu, a bod pobl eraill yn cael eu cadw'n ddiogel pan fydd materion risg wedi cael eu nodi.

Nid oedd pob oedolyn ifanc a fyddai wedi elwa o adroddiad llys wedi derbyn un. Lle'r oedd asesiadau aeddfedrwydd wedi'u cwblhau, nid oeddent yn gyson yn sail i gynigion dedfrydu. Yn gyffredinol, nid oedd digon o fanylion yn yr adroddiadau i gynorthwyo'r llys i ddod i'r penderfyniad dedfrydu mwyaf priodol y mae modd i'r oedolyn ifanc ei gyflawni ac sy'n debygol o fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd a lleihau unrhyw risg. Er mwyn bod yn ystyrlon, rhaid dadansoddi'r wybodaeth hon yng nghyd-destun lefel aeddfedrwydd asesedig yr oedolyn ifanc.

Er i ni nodi enghreifftiau o arfer da, roedd y bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o arwyddocâd aeddfedrwydd a datblygiad yn cael effaith ar ansawdd y rhan fwyaf o agweddau ar y gwaith. Mae angen gwelliannau os yw'r uchelgais i weithio'n wahanol gydag oedolion ifanc, yn enwedig y rhai yr aseswyd bod ganddynt lefelau is o aeddfedrwydd, i'w gyflawni. Mae angen rhoi sylw arbennig i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc yn y ddalfa. Mae'r grŵp hwn yn aml yn wynebu'r heriau mwyaf. Maent yn agored i niwed, ac yn aml yn cael eu hasesu fel rhai sy'n peri risg fwy sylweddol i eraill. Mae cael pethau'n iawn pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa yn hanfodol os ydynt am lwyddo yn y gymuned.

Ym mhob agwedd ar y gwaith, mae angen canolbwyntio ar anghenion amrywiaeth oedolion ifanc, p'un ai oedran yw eu hunig nodwedd warchodedig i'w hystyried neu a oes ganddynt anghenion lluosog, cymhleth ac amrywiol. Mae hyn yn gofyn am ddull meddylgar ac ystyriol. Dylai ymarferwyr fod yn barod i drafod profiadau o wahaniaethu gydag oedolion ifanc a chynnig cymorth lle bo angen. Gellid cefnogi dull mwy creadigol gan wasanaethau allanol arbenigol. Mae gan nifer fawr o'r rhai a ddedfrydwyd fel oedolion gysylltiad helaeth â'r GCI a'r gwasanaethau plant, ac roedd y nifer fach o achosion a arolygwyd yn dangos bod angen i bobl ifanc fod wedi'u paratoi'n well ar gyfer symud i wasanaethau oedolion.

# Argymhellion

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wneud y canlynol:**

1. datblygu ac ariannu strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau i oedolion ifanc sy’n nodi’r blaenoriaethau allweddol, y strwythur llywodraethu a’r mesurau i olrhain cynnydd
2. ail-lansio’r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc gyda chanllawiau clir i staff, gan gynnwys ar rannu gwybodaeth ag asiantaethau partner a sut maen nhw’n cydbwyso eu dyletswyddau prawf a mabwysiadu dull gweithredu sy’n seiliedig ar drawma
3. sefydlu set ddata sy’n benodol i oedran i asesu anghenion oedolion ifanc, ac i nodi a mynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau ac unrhyw wahaniaeth mewn canlyniadau
4. gwerthuso, asesu ac ystyried addasrwydd rhaglenni ymddygiad troseddol cyfredol ar gyfer oedolion ifanc fel grŵp penodol a defnyddio’r dadansoddiad hwn i ddatblygu’r genhedlaeth nesaf o raglenni
5. asesu’r defnydd o waith di-dâl ar gyfer oedolion ifanc i sicrhau ei fod yn cael ei dargedu’n dda a’i fod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol
6. ymgorffori safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau i oedolion ifanc mewn contractau comisiynu newydd, a sicrhau bod staff yn cael eu harfogi i weithio gyda’r garfan hon
7. sicrhau bod mynediad at wasanaethau a chymorth yn deg i bob oedolyn ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig a sicrhau bod mynd i’r afael ag amrywiaeth, yn enwedig mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd, yn cael blaenoriaeth
8. parhau i ddatblygu rhaglenni dysgu sy’n galluogi staff i asesu aeddfedrwydd, mabwysiadu dull gweithredu sy’n ystyriol o drawma a thrafod gwahaniaethu a’i effaith gydag oedolion ifanc
9. sicrhau bod unrhyw rwystrau sy’n atal staff rhag gofyn am wybodaeth neu gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau partner, gan gynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, yn cael sylw
10. gwella ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu ar gyfer oedolion ifanc, gan sicrhau bod aeddfedrwydd yn cael ei asesu’n llawn a’i adlewyrchu yn y cynnig i’r Llys.

**Dylai cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol a phenaethiaid Unedau Cyflawni’r Gwasanaeth Prawf:**

11. ddarparu cymorth penodol, myfyriol i staff i gefnogi nodau ac arferion dull gweithredu sy’n seiliedig ar drawma o weithio gydag oedolion ifanc.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pam y thematig hwn?

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, bu ymchwil sylweddol yn tynnu sylw at aeddfedrwydd seicogymdeithasol, datblygiad yr ymennydd, a chyd-destun cymdeithasol oedolion ifanc sy'n esblygu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sy'n benodol i ddeall oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn llai cadarn. Mae'r ymchwil bresennol yn tueddu i fod yn gyfyngedig o ran maint, gan ddibynnu'n aml ar gyfweliadau a grwpiau ffocws gydag unigolion, yn hytrach na gwerthusiadau trylwyr sy'n mesur pa mor dda mae ymyriadau'n diwallu anghenion penodol oedolion ifanc, i hyrwyddo eu ymataliad a rheoli risg.

Yr arolygiad hwn yw'r adolygiad thematig cyntaf o wasanaethau ar gyfer oedolion ifanc dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Ei brif nodau yw casglu gwybodaeth werthfawr am brofiadau oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ac asesu a yw'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn diwallu eu hanghenion penodol yn ddigonol, yn mynd i'r afael â ffactorau risg, ac yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil cyfredol.

Mae'r arolygiad hwn yn gyfle i nodi'r cryfderau, y meysydd i'w gwella, a'r bylchau posibl yng ngweithrediad Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Gobeithir y bydd canfyddiadau'r arolygiad hwn yn hysbysu'r gwaith parhaus o ddatblygu a gwella gwasanaethau ar gyfer oedolion ifanc dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

## 1.2. Cefndir

Yn 2016, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfiawnder adroddiad o'r enw *'The treatment of young adults in the criminal justice system'.* Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r ddadl bod 'achos cryf dros ddull gwahanol o drin oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol' (Y Pwyllgor Cyfiawnder, 2016). Roedd yn nodi dull o weithio gydag oedolion ifanc. Ar y pryd, gwrthododd y llywodraeth y rhan fwyaf o'r awgrymiadau, a rhyddhaodd y Pwyllgor Cyfiawnder adroddiad dilynol, *Young adults in the criminal justice system* (Y Pwyllgor Cyfiawnder, 2018).

Mae dau adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder yn nodi'r canlynol:

- Mae ymchwil yn cefnogi'n gryf y farn bod oedolion ifanc, yn enwedig dynion ifanc, yn grŵp unigryw, sy'n wahanol i blant dan 18 oed ac oedolion hŷn na 25 oed, ac mae achos cryf dros fabwysiadu dull gwahanol o wneud buddsoddiadau ychwanegol yn y garfan hon.
- Roedd y polisi a'r trefniadau gweithredol presennol yn anfoddhaol, gan nad oeddent yn ystyried anghenion penodol oedolion ifanc ac nid oedd strategaeth wedi'i diffinio'n glir.
- Croesawyd ymrwymiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddatblygu asesiad aeddfedrwydd, ond nid oedd unrhyw sgrinio rheolaidd, a chymerwyd camau cyfyngedig i drin oedolion ifanc yn briodol yn unol â'r anghenion datblygu a nodwyd.
- Prin oedd y dystiolaeth o ba ymyriadau oedd yn gweithio'n effeithiol; roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar reoli risg yn hytrach na helpu pobl ifanc yn gadarnhaol i ddatblygu i aeddfedrwydd wrth i'r ymennydd ddatblygu'n llawn hyd at ganol yr 20au.

**Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth**

Mae cyflogaeth yn fater hollbwysig i oedolion ifanc, nid yn unig oherwydd yr effaith ariannol gadarnhaol y gall ei chael neu ei chael ar eu hamser, ond hefyd fel llwybr allan o droseddu a thuag at hunaniaeth nad yw'n ymwneud â throseddu (T2A, 2013). Mae ymchwil yn dangos bod oedolion ifanc (18 i 20 oed) sydd yn y ddalfa yn ystyried bod cael gwaith yn bwysicach fel ffactor ymatal rhag troseddu nag oedolion hŷn. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod angen cymorth arnynt i

wella eu haddysg.
(Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2015).

Ar ben hynny, mae gan oedolion ifanc yn y ddalfa lai o gymwysterau neu ddim cymwysterau o'u cymharu â charcharorion hŷn, ac maent yn aml yn wynebu heriau sylweddol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, fel triwantiaeth, gwaharddiad, a diarddeliad parhaol (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2015). Gall yr anfanteision addysgol hyn gyfrannu at eu bregusrwydd a dyna pam ei bod mor bwysig darparu ymyriadau effeithiol sy'n gwella cyfleoedd addysg a chyflogaeth i gefnogi ymatal rhag ymddygiad troseddol.

## Deddfwriaeth cydraddoldeb

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael ei gosod ar bob corff cyhoeddus yn y DU gan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried cydraddoldeb wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau a gwneud penderfyniadau. Mae'r gyfraith yn amddiffyn pobl, nid yn unig rhag gwahaniaethu uniongyrchol ond hefyd rhag gwahaniaethu anuniongyrchol. Dyma lle mae polisi neu arfer yn cael ei gymhwyso'n gyfartal i bawb ond mae'n cael effaith negyddol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, fel oedran neu hil.

## Oedolion ifanc du ac o leiafrifoedd ethnig

Yn ei adolygiad yn 2017, tynnodd David Lammy sylw at duedd sy'n peri pryder: er bod nifer cyffredinol y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi gostwng dros ddegawd, mae cyfran yr unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y system wedi cynyddu. Rhybuddiodd Lammy y bydd y bobl ifanc hyn yn symud i'r system cyfiawnder oedolion, gan arwain o bosibl at nifer anghymesur ohonynt yn y gwasanaeth prawf i oedolion (Adolygiad Lammy, 2017). Ar ben hynny, mae plant du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y system ofal.

Fe wnaethom gynnal arolygiad thematig o gydraddoldeb hiliol yn y gwasanaeth prawf yn 2021 ac ailedrych ar y pwnc yn 2023 (Arolygiaeth Prawf EF 2021, 2023). Nododd y Prif Arolygydd Prawf: "Mae'n amlwg bod cydraddoldeb hiliol – ar gyfer pobl ar brawf a staff prawf – yn dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo. Er bod ymrwymiad i wella profiad pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y maes hwn o gyfiawnder troseddol, mae cryn ffordd i fynd o hyd i sicrhau darpariaeth a chyfle cyfartal priodol."

## Deddfwriaeth a chanllawiau

Yn 2015, cyhoeddodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr bryd hynny) set o
egwyddorion comisiynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, *Cyflawni Gwell Canlyniadau i Ddynion Ifanc.* Roedd hwn yn crynhoi'r data a'r dystiolaeth am oedolion ifanc mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf.

Mae *Canlyniadau Gwell i Droseddwyr Benywaidd* (2015) yn nodi'r egwyddorion comisiynu ar gyfer menywod sy'n troseddu ac adeiladwyd ar hyn yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd 2022-2025. Prin yw'r cyfeiriadau yn y ddau at fenywod ifanc.

Yn 2020, roedd y rhaglen Diwygio Prawf, a oedd yn cefnogi'r broses o ailuno'r gwasanaeth prawf, yn cynnwys ffrwd waith ar wasanaethau i oedolion ifanc. Roedd hyn yn cynnwys datblygu fframwaith polisi i gefnogi gwaith gydag oedolion ifanc.

Cyhoeddwyd Model Gweithredu Targed ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr ym mis Chwefror 2021. Dywedodd y byddai angen y sgiliau iawn ar staff prawf i weithio gydag oedolion ifanc, er mwyn cefnogi ymarfer sy'n hyrwyddo ymgysylltiad oedolion ifanc. Byddai hyfforddiant yn galluogi staff i ddeall aeddfedrwydd, datblygiad yr ymennydd, a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc, a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ym mis Chwefror 2022, yn sefydlu'r canllawiau a'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr prawf sy'n gweithio

gydag oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys gofynion gorfodol, fel cynnal asesiadau aeddfedrwydd i hysbysu pob agwedd ar y gwaith hwn, ac mae'n darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi ymarferwyr prawf i gyflawni'r gwaith.

### Gwaith pontio rhwng pobl ifanc ac oedolion

Yn 18 oed, mae unigolion yn oedolion yn llygaid y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau sydd wedi'u teilwra ar gyfer plant yn cael eu tynnu oddi wrthynt ac yn aml yn cael eu disodli gan wasanaethau i oedolion sy'n rhoi sylw i anghenion tebyg. Yn y system cyfiawnder troseddol, mae achosion yn cael eu trosglwyddo o GCI i wasanaethau prawf oedolion, er bod hyblygrwydd i rai achosion gael eu cadw gan y GCI os ystyrir bod hyn yn briodol. Hyd yn oed os bydd achos yn cael ei gadw gan y GCI am resymau dilys, gellir ei drosglwyddo os bydd oedolyn ifanc yn aildroseddu ac yn cael ei ail-ddedfrydu i wasanaethau oedolion. Mae nifer yr achosion a drosglwyddwyd i'r gwasanaeth prawf o GCI wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gall hyn fod oherwydd y gostyngiad sydyn yn nifer y plant sy'n cael eu goruchwylio'n statudol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o oedolion ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaethau prawf wedi cael eu dedfrydu fel oedolion.

### Protocol cenedlaethol ar y cyd ar gyfer pontio

Cafodd y protocol cenedlaethol ar y cyd ar gyfer pontio yn Lloegr, *Joint protocol for managing the cases of children moving from Youth Offending Teams to the Probation Service*, ei ddiweddaru yn 2021. Cafodd y canllawiau ar gyfer Cymru eu diweddaru yn 2020. Datblygwyd a chytunwyd ar y protocolau gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Prawf, a grwpiau rheolwyr timau troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr. Maent yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo achosion lle mae'r oedolyn ifanc yn y ddalfa adeg trosglwyddo.

## 1.3. Nodau ac amcanion

Yn yr arolygiad hwn roeddem yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r trefniadau llywodraethu ac arwain yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni gwasanaethau ymatebol, personol ac o ansawdd uchel ar gyfer oedolion ifanc?
- A yw staff y gwasanaeth wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaethau ymatebol, personol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc?
- A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n galluogi darpariaeth bersonol ac ymatebol i ddiwallu anghenion oedolion ifanc?
- A yw gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer oedolion Ifanc?
- A yw'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol, gan ystyried oedran ac aeddfedrwydd, ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau teg a gwrthrychol?
- A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar aeddfedrwydd er mwyn ymgysylltu ag oedolion ifanc, cefnogi eu ymataliad a rheoli risg?

## 1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Polisi, strategaeth, llywodraethu ac arweinyddiaeth | Mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau arwain a llywodraethu cenedlaethol ar gyfer gweithio gydag oedolion ifanc yn y Gwasanaeth Prawf. Mae'n disgrifio sut mae gwaith gydag oedolion ifanc wedi datblygu'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac mewn Unedau PDU, yng nghyd-destun y Model Gweithredu Targed a'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc. Yn olaf, mae'n adrodd ar hyfforddiant, sgiliau a threfniadau cefnogi ar gyfer staff prawf sy'n gweithio gydag oedolion ifanc. |
| 3. Rhannu gwybodaeth, ymyriadau a gwasanaethau | Mae'r bennod hon yn archwilio effeithiolrwydd trefniadau rhannu gwybodaeth i hysbysu a chefnogi'r gwaith a ddarperir i oedolion ifanc dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Mae'n asesu pa mor addas yw'r ymyriadau a'r gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc. Yn olaf, mae'n trafod effeithiolrwydd gwaith partneriaeth o ran cefnogi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc. |
| 4. Ansawdd adroddiadau a goruchwylio achosion | Mae'r bennod hon yn adrodd ar ansawdd y gwaith a wneir gydag oedolion ifanc. Mae'n archwilio dealltwriaeth yr ymarferwyr o aeddfedrwydd, a sut yr asesir ac y rhoddir cyfrif amdano adeg y ddedfryd a thrwy gydol y cyfnod goruchwylio. Mae'r bennod hefyd yn gwerthuso pa mor dda y mae'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol a sylwadau ar y gwaith pontio o'r GCI i wasanaeth prawf i oedolion. |

# 2. Polisi, strategaeth, llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau arwain a llywodraethu cenedlaethol ar gyfer gweithio gydag oedolion ifanc yn y Gwasanaeth Prawf. Mae'n disgrifio sut mae gwaith gydag oedolion ifanc wedi datblygu'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac mewn unedau cyflawni prawf (PDU), yng nghyd-destun y Model Gweithredu Targed (TOM) a'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc. Yn olaf, mae'n adrodd ar hyfforddiant, sgiliau a threfniadau cefnogi ar gyfer staff prawf sy'n gweithio gydag oedolion ifanc.

## 2.1. Arweinyddiaeth genedlaethol

Mae llunwyr polisi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMMPS), ynghyd ag uwch arweinwyr prawf, yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer oedolion ifanc, fel y nodir yn y Model Gweithredu Targed ac yn y Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc. Y nod yw gwneud gwasanaethau prawf ar gyfer oedolion ifanc yn fwy effeithiol a phriodol, drwy roi sylw i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigryw.

**Polisi HMMPS**

Roedd tîm polisi'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi datblygu a dosbarthu'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc ar draws rhanbarthau prawf yn 2022. Roedd hyn yn dilyn uno'r Gwasanaeth Prawf ym mis Mehefin 2021. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, roedd rhanbarthau'n wynebu heriau sylweddol o ran cynnal gweithrediadau arferol, a rheoli bylchau staffio sylweddol. Nid oedd y fframwaith yn cael ei gefnogi gan strategaeth genedlaethol glir na hyfforddiant a gomisiynwyd yn ganolog i helpu staff i addasu eu hymarfer yn unol â'r polisi. Darparwyd canllawiau ymarfer cyfyngedig a phrin fu'r gwaith dilynol ar ei gynnydd a'i effaith.

Bwriad y fframwaith polisi yw dwyn ynghyd y gofynion a'r canllawiau perthnasol i wella'r ffordd y mae oedolion ifanc yn cael eu rheoli a diwallu eu hanghenion penodol. Tybir na fydd yn gwneud unrhyw alwadau ychwanegol ar adnoddau. O dan delerau'r polisi, mae gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf 'raglen archwilio corfforaethol a fydd yn archwilio yn erbyn gofynion gorfodol i raddau ac amlder a bennir drwy'r trefniadau llywodraethu priodol.'

Disgwylir i ranbarthau ddatblygu cynlluniau cyflawni i weithredu'r polisi ar lefel leol, i sicrhau bod gwasanaethau ar draws y wlad yn mabwysiadu dull wedi'i deilwra o weithio gydag oedolion ifanc, fel y nodir yn y polisi, ac i hybu ymarfer cyson.

Mae canfyddiadau ein harchwiliad yn awgrymu bod HMPPS wedi tanamcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i integreiddio'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc yn llawn. Yn benodol, mae angen hyfforddiant staff penodol ar asesiadau aeddfedrwydd ac arferion sy'n seiliedig ar drawma, sy'n elfennau hanfodol o'r fframwaith.

Soniodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn ystod ein harolygiad am y gymhariaeth rhwng gweithio gydag oedolion ifanc a gweithio gyda menywod mewn ffordd sy'n ymateb i'w hanghenion unigryw sy'n aml yn gymhleth. Mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud i wreiddio strategaeth benodol ar gyfer menywod, gyda thîm canolog yn arwain y gwaith ac adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i'w gefnogi (Arolygiaeth Prawf EF, 2024). Bu gwelliannau yn y data a gasglwyd ac ansawdd y gwaith a ddarparwyd i fenywod o dan y strwythur hwn. Mae hyn wedi ysgogi galwadau am fabwysiadu dull tebyg ar gyfer oedolion ifanc, er mwyn sicrhau gwasanaethau cyson ac effeithiol.

<u>Oedolion ifanc â phrofiad o ofal</u>

Mae gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf strategaeth sefydledig ar waith ar gyfer unigolion sydd â phrofiad o ofal, ac ym mis Mawrth 2023 cyhoeddodd ei ganllaw *Care experience matters*. Mae'r canllaw hwn yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithredu rhwng carchardai, y gwasanaeth prawf ac awdurdodau lleol i gefnogi unigolion sydd â phrofiad o ofal yn effeithiol yn y system cyfiawnder

troseddol. Mae'n hyrwyddo dull partneriaeth ar gyfer y grŵp hwn o oedolion ifanc, sy'n cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol. Yn ein harolwg, fe wnaethom nodi'r ffocws ar ddeall cefndir, gwendidau ac anghenion oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal. Roedd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer oedolion ifanc sy'n gadael gofal a'u hawl i gael cymorth gan awdurdod lleol hyd at 25 oed yn golygu eu bod yn cael cymorth gan gynghorydd personol yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd dull cydweithredol rhwng staff prawf a chynghorwyr personol wedi gwella ansawdd asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau, a oedd yn sylweddol gryfach i oedolion ifanc â phrofiad o ofal o'u cymharu â'r holl oedolion ifanc eraill yn ein sampl.

Protocol pontio

Mae'r protocol pontio'n nodi'r gweithdrefnau gweithredol a'r cyfrifoldebau perthnasol ar gyfer trosglwyddo achosion yn effeithiol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid (GCI) i'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r ddau sefydliad yn gyfrifol am sicrhau proses bontio esmwyth a dylent gynnal cyfarfod adolygu sy'n cynnwys yr oedolyn ifanc bedair i chwe wythnos ar ôl trosglwyddo'n ffurfiol.

Ym mhob ardal a arolygwyd gennym, defnyddiwyd y protocol hwn i sefydlu prosesau lleol ar y cyd i gefnogi gwaith pontio, ac roedd y rhain wedi'u datblygu'n dda. Nid oes ystadegau wedi'u cyhoeddi nac sydd ar gael yn rhwydd i ddeall y garfan o oedolion ifanc sy'n pontio rhwng y system ieuenctid a'r system oedolion, gan fod prosesau cofnodi gwybodaeth yn ei gwneud yn anodd cael gafael ar y data perthnasol. Felly, nid yw'n bosibl olrhain unrhyw dueddiadau, cynnydd neu ostyngiadau yn nifer yr achosion.

## Gweithredu

Mae pennaeth strategaeth oedolion ifanc y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc, yn ogystal â meysydd polisi cysylltiedig, fel y strategaeth ar gyfer
pobl â phrofiad o ofal a secondiadau prawf mewn GCIau.

Mae cyfarwyddwr prawf rhanbarthol wedi cael ei ddynodi'n arweinydd cenedlaethol ar gyfer oedolion ifanc yn y Gwasanaeth Prawf. Mae'r arweinydd yn cadeirio cyfarfodydd chwarterol a fynychir gan arweinwyr oedolion ifanc rhanbarthol PDU. Mae hyn yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a hyrwyddo dysgu. Mae cynrychiolwyr o bob rhanbarth yn bresennol yn y cyfarfodydd; mae'r rhai sy'n bresennol hefyd yn cynnwys swyddogion o Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chynrychiolwyr o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr.

Yn ystod cyfarfodydd, anogir y rhai sy'n bresennol i ystyried sut mae'r Model Gweithredu Targed yn cael ei roi ar waith yn eu rhanbarthau ac a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc. Fe'u gwahoddir hefyd i rannu unrhyw bryderon neu heriau wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion ifanc. Mae hyn yn hyrwyddo cydweithio a datrys problemau ar draws rhanbarthau. Dywedodd y rhai sy'n mynychu fod hyn wedi rhoi gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth iddynt o waith gydag oedolion ifanc. Mae arweinwyr oedolion ifanc rhanbarthol PDU yn gyfrifol am raeadru gwybodaeth a gwersi yn eu rhanbarth.

Mae arweinydd cenedlaethol oedolion ifanc yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r prif swyddog prawf. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth a datblygiadau perthnasol sy'n ymwneud ag oedolion ifanc yn cael eu cyfleu i'r uwch dîm arwain.

Er bod manteision i'r strwythur cyfarfodydd sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanbarthol, nid oes ganddo'r gallu i graffu, dadansoddi a herio rhanbarthau'n llawn ar ansawdd eu gwaith gydag oedolion ifanc. Ni all yr arweinydd cenedlaethol ar gyfer oedolion ifanc, ynghyd â'u cyfrifoldebau fel RPD, ymrwymo digon o amser i gydlynu'r oruchwyliaeth angenrheidiol, oherwydd natur anodd eu rôl.

## 2.2. Trefniadau comisiynu

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (CRS) wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2021. Pan gytunodd darparwyr â'r contractau, roedd yn rhaid iddynt ymrwymo i ddarparu gwasanaethau wedi'u teilwra i unigolion ar brawf, gan gynnwys oedolion ifanc. Fodd bynnag, mae'r contractau hyn yn eang ac nid ydynt yn nodi nac yn tynnu sylw'n benodol at sut y dylid darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i oedolion ifanc, ac nid ydynt yn nodi unrhyw ddisgwyliadau sylfaenol ar gyfer y garfan hon. Mae'r amwysedd hwn yn y contractau yn ei gwneud yn anodd i reolwyr contractau ddal darparwyr i gyfrif. Mae hyn yn cael ei waethygu gan ddiffyg data sydd ar gael i gefnogi unrhyw her i effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

Roedd adborth gan staff, rheolwyr a chomisiynwyr yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy yn dangos nad oedd fawr o wahaniaeth yn y gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc o'i gymharu â'r gwasanaethau a ddarperir i eraill. Nid oes canllawiau, monitro na gwerthuso safonol i sicrhau bod darpariaeth CRS yn seiliedig ar aeddfedrwydd a thrawma neu'n ddigonol i ddiwallu anghenion penodol oedolion ifanc.

Dan y trefniadau presennol, mae ymarferwyr prawf yn gyfrifol am asesu anghenion oedolion ifanc a chyfleu'r rhain i'r darparwr gwasanaeth pan fyddant yn gweithio gydag oedolion ifanc. Gwelsom nad oedd atgyfeiriadau a wnaed i'r CRS yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol a phwysig yn gyson am bryderon ynghylch aeddfedrwydd, risg a diogelu isel. Yn anffodus, fel arfer nid oes gan y gwasanaethau eu hunain staff sydd â'r sgiliau a'r profiad o weithio gydag oedolion ifanc ac i ganfod eu hanghenion.

Yn ein sampl, dim ond hanner yr achosion a gafodd fudd o ddarpariaeth CRS, er bod ganddynt lefelau uchel o angen a nodwyd. Yn achos y rhai a atgyfeiriwyd, nid oedd traean yn ymgysylltu â'r gwasanaethau. Dywedodd oedolion ifanc wrth Llais y Defnyddiwr ei bod yn bwysig bod gwasanaethau'n cael eu teilwra i'w hanghenion penodol. Disgrifiodd un oedolyn ifanc y manteision a gawsant o dderbyn cymorth arbenigol:

> *"Rydw i wedi cael cymorth iechyd meddwl, cymorth/cwnsela galar a chymorth dibyniaeth ac rwy'n credu mai'r rhain i gyd yw'r pethau pwysicaf i'm rhwystro rhag dod yn ôl yma."*

Ym mhob ardal yr ymwelwyd â hi, mynegodd staff bryderon ynghylch y ffaith bod darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) CRS wedi dod i ben yn ddiweddar oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb. Mae oedolion ifanc yn cael gafael ar gymorth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn fwy nag unrhyw grŵp arall, ac mae ymgysylltu â chyflogaeth neu hyfforddiant yn hanfodol i leihau'r risg o droseddu yn y dyfodol. Rhaid i PDUau ddod o hyd i ffyrdd eraill o helpu unigolion i gael gafael ar gymorth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, fel drwy wasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn bod hyn yn ddull priodol, gan fod y gefnogaeth a gynigir yn gyfyngedig. Mae contractau CRS presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2025, gydag opsiwn i ymestyn am 12 mis ychwanegol. Mae hyn yn cynnig cyfle i gynnwys rhai disgwyliadau sylfaenol ar gyfer gweithio gydag oedolion ifanc yn y gofynion cytundebol newydd. Byddai cynnwys disgwyliadau clir a phendant yn y contractau yn helpu i sicrhau bod cymorth i oedolion ifanc yn cael ei deilwra'n well i'w hanghenion. Ar ben hynny, byddai'n grymuso rheolwyr contractau rhanbarthol i ddal darparwyr yn atebol.

### Y Gronfa Canlyniadau ac Arloesi Ranbarthol a threfniadau cyd-gomisiynu

Mae'r Gronfa Canlyniadau ac Arloesi Rhanbarthol (ROIF) yn galluogi rhanbarthau i ariannu rhagor o weithgareddau sy'n gallu mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau ac annog ymgysylltu, ymatal ac adsefydlu, gan ddatblygu gwybodaeth am ba weithgareddau sy'n gweithio orau ar yr un pryd. Dylai hyn roi'r ymreolaeth a'r gallu i arweinwyr PDU ganfod bylchau yn y gwasanaethau sydd ar gael i oedolion ifanc ac i gomisiynu gwasanaethau'n lleol.

Fodd bynnag, mae'r cyllid sydd ar gael wedi cael ei leihau'n sylweddol. Mewn un ardal, roedd cyllideb ROIF wedi gostwng o £1.3 miliwn i £500,000 dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod ein

harolygiad, nid oedd ffigur y grant ar gyfer blwyddyn dreth 2024/2025 ar gyfer y PDU honno yn hysbys. Roedd yr ansicrwydd hwn yn golygu na allai'r gwasanaeth warantu y bydd yn gallu cyflawni ymrwymiadau ariannol i brosiectau sy'n mynd rhagddynt. Yn ogystal, bu'n rhaid i waith cyd-gomisiynu arfaethedig gyda'r nod o fynd i'r afael â materion tai ar gyfer oedolion ifanc sy'n cael llety drwy'r darparwr CRS gael ei ohirio oherwydd ansicrwydd ariannol.

Gall caffael hyd yn oed contract â manyleb gymharol fach fod yn broses hir, sy'n cynnwys dogfennau helaeth. Gwelsom brosiectau nad oeddent wedi cael eu rhoi ar waith eto 18 mis ar ôl i'r broses ddechrau.

Mewn rhai ardaloedd, roedd oedolion ifanc yn elwa o wasanaethau wedi'u comisiynu ar y cyd â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fel rhan o'r strategaeth leol i leihau trais difrifol:

**Enghreifftiau o ymarfer da**

Mae rhaglen Phoenix yng Nghaerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland yn cael ei hariannu drwy'r rhwydwaith lleihau trais. Cyflwynir y rhaglen gan dîm aml-asiantaeth a'i nod yw mynd i'r afael â thrais difrifol a lleihau niwed. Mewn enghraifft o arfer da, dyrannwyd 'llywiwr cymunedol' i oedolyn ifanc yn ein sampl, a oedd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol ei hun. Bu'r llywiwr cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r ymarferydd prawf a'r oedolyn ifanc i ddatblygu a gweithredu ymyriad penodol a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr oedolyn ifanc. Tynnodd yr ymarferydd prawf sylw at faint yr oedd yr oedolyn ifanc yn gwerthfawrogi cefnogaeth rhywun a oedd â phrofiad uniongyrchol o'r system brawf fel oedolyn ifanc ac a oedd wedi symud ymlaen yn llwyddiannus yn eu bywyd eu hunain.

Ym Manceinion Fwyaf, mae'r uned lleihau trais wedi ffurfio partneriaeth â'r elusen perthnasoedd TLC: Talk, Listen, Change. Maen nhw wedi lansio rhaglen fentora sydd â'r nod o helpu dynion ar brawf i fod yn fodelau rôl cadarnhaol yn eu teuluoedd. Mae'r rhaglen, Stepping Up, yn canolbwyntio ar helpu dynion rhwng 18 a 25 oed sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol i ailadeiladu perthnasoedd teuluol sydd dan straen.

## 2.3. Arweinyddiaeth ranbarthol a PDU

Nodwyd bod oedolion ifanc yn flaenoriaeth ym mhob ardal bron yr ymwelwyd â hi. Roedd y weledigaeth ranbarthol ar gyfer darparu gwasanaethau yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi cenedlaethol a'i weithrediad. Roedd arweinwyr yn unfrydol o'r farn bod gan oedolion ifanc anghenion cymhleth ac unigryw a bod angen gwneud mwy i hyrwyddo dull gweithredu wedi'i deilwra ar gyfer gweithio gyda nhw. Roedd ymdeimlad cryf o ymrwymiad i gyflawni hyn.

Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ardaloedd nid yw'r cyfeiriad strategol wedi'i sefydlu'n llawn eto. Nid oedd y rhan fwyaf wedi cynnal asesiad o anghenion i nodi'r heriau a'r problemau penodol sy'n wynebu oedolion ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau demograffig, ffactorau risg, bylchau mewn gwasanaethau ac adnoddau presennol. Disgrifiodd rhai rwystrau rhag cael gafael ar ddata sy'n benodol i oedran, er enghraifft ar gyfraddau atgyfeirio, ymgysylltu a chwblhau, ond cawsom ein sicrhau bod y data hwn ar gael. Mae gwaith sicrhau ansawdd a gynhaliwyd yn genedlaethol wedi nodi nad yw'r adnodd asesu aeddfedrwydd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Nid oedd y rhan fwyaf o ranbarthau eto wedi gwneud gwaith sicrhau ansawdd a oedd yn benodol i oedolion ifanc.

Ym mhob ardal, cynlluniwyd timau crynodyddion arbenigol i ddarparu dull gweithredu wedi'i deilwra'n well ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc. Nid oedd yr un ohonynt wedi'u sefydlu'n llawn adeg ein harolygiad, ond roedd y sylfeini wedi'u gosod ym mhob ardal. O'r achosion a arolygwyd gennym, dim ond 22 y cant oedd yn cael eu goruchwylio gan weithwyr arbenigol oedolion ifanc. Mae heriau, gan gynnwys llwythi achosion uchel a recriwtio, cadw staff a salwch staff, wedi arafu cynnydd. Mae hyn wedi arwain at rwystredigaeth ymysg rheolwyr a staff, sy'n awyddus i ddechrau eu rolau newydd.

Mae penaethiaid rhanbarthol PDU gydag arweinwyr thematig ar gyfer oedolion ifanc yn cael y dasg o rannu a hyrwyddo arferion gorau. Mae rhai arweinwyr rhanbarthol yn cynnal fforymau a fynychir gan uwch swyddogion prawf (SPO) ac ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion ifanc. Nid oedd yr arfer hwn yn gyson ar draws pob ardal, a phan ddigwyddai hynny, nid oedd bob amser yn cael effaith sylweddol ar waith y gwasanaeth. Fe wnaethom nodi'r amser cyfyngedig sydd ar gael i'r rhan fwyaf o arweinwyr oedolion ifanc ganolbwyntio ar gydlynu datblygiadau rhanbarthol, oherwydd gofynion eu rolau llawn amser.

Dangosir y prif elfennau ar gyfer gwaith effeithiol gydag oedolion ifanc yn yr enghraifft ganlynol o arfer da:

**Enghraifft o ymarfer da**

Yn Hull ac East Riding, dangosodd pennaeth y PDU a'r arweinydd oedolion ifanc rhanbarthol weledigaeth gref a rennir ar gyfer oedolion ifanc. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynllun cyflawni rhanbarthol. Chwaraeodd y tîm arwain ran ddylanwadol, gan gydweithio'n effeithiol â phartneriaid, fel iechyd, i wella mynediad oedolion ifanc at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion dynodedig. Roedd gan yr uwch swyddog prawf (SPO), ynghyd â'r arweinydd thematig ar gyfer oedolion ifanc, brofiad helaeth ym maes cyfiawnder ieuenctid, ac roedd gan y staff feddwl mawr ohonynt fel ffynhonnell ddysgu werthfawr. Rhoddwyd cyfrifoldeb penodol i swyddog darparu ansawdd am waith sy'n ymwneud ag oedolion ifanc. Roedd y PDU yn defnyddio set ddata sefydledig wedi'i dadansoddi yn ôl oedran, gan alluogi staff i graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer oedolion ifanc a nodi themâu a thueddiadau yn y garfan.

Roedd staff, gan gynnwys awduron adroddiadau llys, yn glir ynghylch eu rolau a'u disgwyliadau mewn perthynas â'r weledigaeth gyffredinol, ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i weithio'n wahanol gydag oedolion ifanc. I'r rhan fwyaf, roedd gofynion gweithio gydag oedolion ifanc wedi cael eu hystyried yn eu llwyth gwaith. Roedd effaith arweinyddiaeth gref yn amlwg yn ansawdd cyffredinol gwaith achos a'r cynnydd a wnaed o ran rhoi dull gweithredu sy'n seiliedig ar aeddfedrwydd ar waith wrth weithio gydag oedolion ifanc.

### Rôl y SPO

Ym mhob PDU, roedd gan SPO rôl arweiniol thematig ar gyfer oedolion ifanc, er bod disgwyliadau'r rôl hon yn amrywio yn dibynnu ar y trefniadau yn y PDU neu'r rhanbarth. Yr arweinyddion SPO oedd y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl staff a oedd ag ymholiadau am ymarfer gydag oedolion ifanc. Yn gyffredinol, roedd y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Roedd y rhan fwyaf o'r arweinwyr hyn yn eu lle ac yn aros i'r timau arbenigol gael eu datblygu'n llawn. Erbyn hynny, byddai'r rhan fwyaf o achosion oedolion ifanc yn uniongyrchol dan eu rheolaeth llinell.

Rhan o rôl arweiniol yr SPO fyddai bod yn gyswllt uniongyrchol i'r GCI i oruchwylio gwaith pontio ar y cyd, a gwaith yr ymarferydd prawf ar secondiad. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwyr cyfiawnder ieuenctid ac Uwch Swyddogion Prawf i ystyried achosion a oedd yn gymwys i'w trosglwyddo. At ei gilydd, roedd y GCI yn adrodd yn gadarnhaol ar y trefniadau gweithio.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu SPO, ond roedd eu gallu i ddatblygu ymarfer mewn perthynas ag oedolion ifanc yn gyfyngedig. Roedd rhai mor brysur fel eu bod yn gallu delio â thasgau craidd yn unig a phrin oedd yr amser ar gyfer goruchwyliaeth fyfyriol. Gwelsom fod goruchwyliaeth rheolwyr yn effeithiol mewn llai na thraean o achosion, gyda fawr ddim o sylw yn cael ei roi i faterion aeddfedrwydd perthnasol.

Dywedodd un o arweinydd SPO wrthym:

> *"Mae'n achos o reoli argyfwng yn barhaus, defnyddwyr gwasanaeth mewn argyfwng oherwydd nad oes gwasanaethau ar gael, mae ymarferwyr prawf mewn argyfwng oherwydd eu bod newydd gymhwyso, ac mae'r cyd-destun yn ofnadwy ac mae rheolwyr mewn argyfwng yn ceisio cefnogi staff a goruchwylio mwy o achosion ac maen nhw mewn argyfwng hefyd."*

## 2.4. Arfogi staff i weithio gydag oedolion ifanc

### Llwyth gwaith staff

Mae fframwaith blaenoriaethu'r gwasanaeth prawf yn addasu disgwyliadau ymarfer i reoli'r galw o ran llwyth gwaith. Cafodd pedwar o'r rhanbarthau a arolygwyd gennym eu dosbarthu'n 'wyrdd' yn

unol â'r fframwaith, ac roedd dau wedi newid o 'goch' i 'ambr' yn ddiweddar. Er gwaethaf y newid cadarnhaol hwn, a beth bynnag fo'r statws blaenoriaethu, dywedodd dros hanner y staff a oedd yn dal achosion eu bod yn cael trafferth rheoli eu llwyth gwaith.

O ran llwyth gwaith a galw, dywedodd staff fod angen buddsoddi llawer mwy o amser i sefydlu perthnasoedd llawn ymddiriedaeth gydag oedolion ifanc cyn y gellir cyflawni gwaith ystyrlon, yn wahanol i weithio gydag oedolion eraill ar brawf. Fodd bynnag, nid yw'r offeryn mesur llwyth gwaith presennol yn rhoi digon o sylw i gymhlethdod y gwaith hwn.

Mynegodd un rheolwr achos farn ar gymhlethdod y gwaith a oedd yn gyson drwy gydol ein harolygiad:

> *"Mae'r proffil a'r anghenion yn fwy, rheoli emosiynau, anghenion dysgu yn fwy. Gall fod yn llawer anoddach iddyn nhw reoli eu tymer gan nad oes ganddyn nhw'r sgiliau hynny. Byddent yn ei chael hi'n anodd mewn grŵp gan eu bod wedi cael trafferth yn yr ysgol. Maen nhw'n cael chwalfa ac maen nhw'n gaotig. Dydych chi ddim yn cael unrhyw ostyngiad yn nifer yr achosion ar gyfer y gofynion. Mae gennym dîm o oedolion ifanc ond nid oes cydnabyddiaeth uwch o'r anghenion hyn, sy'n ei gwneud yn anodd deall pam bod yna dîm arbenigol."*

Gwelsom nad oedd llwythi achosion is neu wedi'u diogelu ar eu pen eu hunain o reidrwydd yn arwain at waith mwy effeithiol. Fodd bynnag, yn y rhanbarth lle'r oedd yr ymarfer ar ei gryfaf, roedd gan y rhan fwyaf o'r staff lwyth achosion o lai na 110 y cant, yn ôl yr adnodd rheoli llwyth gwaith. Roedd hyn yn sylweddol is nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill.

### Hyfforddi a datblygu ymarferwyr prawf sy'n gyfrifol am achosion

Ar gyfartaledd, dim ond traean o'r staff oedd yn teimlo eu bod wedi cael digon o hyfforddiant a datblygiad i weithio'n effeithiol gydag oedolion ifanc. Roedd y ganran hon yn amrywio ar draws gwahanol ardaloedd: mewn rhai rhanbarthau, nid oedd unrhyw aelodau o staff yn teimlo eu bod wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol, ac mewn un arall, dywedodd pob aelod o staff eu bod wedi cael digon o hyfforddiant. Nid oedd cydberthynas wedi'i nodi rhwng canfyddiad staff am ansawdd yr hyfforddiant a gawsant a'n harsylwadau am effeithiolrwydd ymarfer.

Dywedodd un ymarferydd wrthym am eu pryderon ynghylch lefel yr hyfforddiant a gawsant:

> *"Nid ydym wedi cael unrhyw hyfforddiant: yr ydym yn gorfod jest mynd amdani. Rwyf wedi dysgu llawer yr wythnos hon, fel y ffaith bod Dewisiadau a Newidiadau yn bodoli. Mae hyfforddiant yn fwlch, ac mae angen i rywun yn rhywle fod yn edrych ar hyfforddiant penodol i'r rheini sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn o bobl oherwydd eu bod yn gymhleth iawn."*

Nododd llawer o reolwyr hefyd fod angen hyfforddiant arnynt er mwyn cefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion ifanc. Er bod sesiynau briffio ac adnoddau hyfforddi ar gael drwy Equip, dywedodd llawer o staff wrthym nad oedd ganddynt amser i'w harchwilio'n llawn. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a oedd ar gael yn cynnwys dysgu ar-lein. Roedd disgwyl i staff gael mynediad at hyn pan allent, ac ychydig oedd yn cael digon o amser dysgu wedi'i ddiogelu i wneud hynny. Byddai'r rhan fwyaf o staff yn gwerthfawrogi sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb yn fawr yn hytrach na hyfforddiant ar-lein. I lawer, nid y dull ar-lein yw eu hoff ddull dysgu. Hefyd, mae'r dull dysgu unigol yn ei gwneud yn anodd gwreiddio arferion cyson ar draws gwasanaethau a rhanbarthau.

Fe wnaethom nodi bod gwaith y swyddogion prawf o ansawdd uwch na gwaith swyddogion gwasanaethau prawf (PSOs) ar draws bron pob maes ymarfer, gan gynnwys mabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o aeddfedrwydd. Gallai hyn fod oherwydd bod gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, ac sy'n ystyriol o aeddfedrwydd, yn dibynnu'n drwm ar feithrin perthnasoedd. Mae hyn yn fwy cyraeddadwy gyda llai o achosion, er gwaethaf eu cymhlethdod, ac roedd llwyth gwaith swyddogion prawf yn tueddu i gael ei rannu ar draws llai o achosion na llwyth gwaith PSOau. Roedd swyddogion prawf hefyd yn fwy tebygol o fod wedi elwa o rywfaint o hyfforddiant yn y maes hwn.

Ym mhob ardal a arolygwyd, cafodd ymarferydd prawf ei secondio i'r GCI lleol. Roedd hyn yn rhoi mynediad iddynt at hyfforddiant y GCI fel ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, ac roeddent yn gwerthfawrogi hynny. Yn Bury a Rochdale, mae cynllun i'r holl staff oedolion ifanc arbenigol dreulio amser yn y GCI yn dysgu am y dull o weithio gydag unigolion hyd at 18 oed. Mae'r fenter hon yn gam cadarnhaol tuag at ddatblygu sgiliau'r tîm arbenigol ac yn dangos gwerth harneisio'r hyn ellir ei dysgu gan wasanaethau partner. Gallai archwilio cyfleoedd dysgu ar draws partneriaethau lleol fod o fudd sylweddol i ddatblygiad staff y gwasanaeth prawf.

Yn Newham, mae staff yn y tîm oedolion ifanc wedi elwa o becyn dysgu a datblygu cynhwysfawr sy'n rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag aeddfedrwydd a datblygiad. Mae'r pecyn yn cynnwys hyfforddiant mewn ymarfer sy'n ystyriol o drawma, cymhwysedd diwylliannol, gweithio gyda theuluoedd ac anafiadau i'r ymennydd. Mae'r dull hwn yn dangos yr ymdrech ragweithiol sydd ei hangen i arfogi staff â'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol sy'n angenrheidiol i weithio'n effeithiol gydag oedolion ifanc yn y system gyfiawnder.

### Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant

O'r achosion a arolygwyd gennym, roedd ychydig o dan draean yn cynnwys oedolion ifanc o gefndiroedd Du neu leiafrifoedd ethnig. Roedd staff yn tybio y byddai'r unigolion hyn wedi profi gwahaniaethu, ac roeddent yn adlewyrchu hyn yn eu hasesiadau. Fodd bynnag, prin iawn y trafodwyd effaith y gwahaniaethu hwn ar yr oedolion ifanc a'i berthnasedd i ddarparu gwasanaethau.

Dywedodd un rheolwr wrthym:

> *"Mae diffyg hyder mewn pobl wrth ofyn cwestiynau am hiliaeth a gwahaniaethu rhag ofn iddynt ymddangos yn anwybodus. Gall pobl deimlo'n anghyfforddus iawn rhag ofn iddynt gael pethau'n anghywir. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu'n fenywod gwyn ac nid ydynt yn cynrychioli'r gymuned. Fyddai staff ddim yn gwybod ble i ddod o hyd i wasanaethau ar gyfer pobl o gefndiroedd lleiafrifol."*

Tynnodd un ymarferydd sylw at yr heriau a'r anghenion hyfforddi:

> *"Byddai hyfforddiant ar wahaniaethu yn dda. Sut i ymateb i ddatgeliad am wahaniaethu gan oedolion ifanc. Mae llawer o ymarferwyr yn teimlo'n anghyfforddus yn cael y sgyrsiau hyn a mynd i'r afael â'r maes hwn."*

Dylai staff fod yn barod i drafod yn agored ac archwilio materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu, a gwahaniaethu ar sail hil. Mae'r ddealltwriaeth hon yn hanfodol ar gyfer cynllunio a chyflawni gwaith sy'n ystyried ac yn mynd i'r afael â'u profiadau ac arwyddocâd hyn iddyn nhw.

### Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff gwaith di-dâl, staff y llys a hwyluswyr y rhaglen

Mae goruchwylwyr gwaith di-dâl (UPW) yn treulio llawer o amser gydag oedolion ifanc ac maent mewn sefyllfa wych i feithrin perthynas â nhw. Yn ystod ein harolygiadau, fe wnaethom gwrdd â rhai goruchwylwyr Gwaith Di-dâl ysbrydoledig, a ddangosodd ddealltwriaeth dda o oedolion ifanc a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu. Roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r gwendidau ychwanegol a allai fod gan oedolion ifanc ac roeddent yn cydnabod arwyddocâd hyn, yn enwedig mewn grŵp Gwaith Di-dâl, lle mae eraill fel arfer yn hŷn.

Mae'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc yn nodi y dylai goruchwylwyr Gwaith Di-dâl, os ydynt yn cael gwybod bod gan oedolyn ifanc aeddfedrwydd isel, addasu a newid eu dull goruchwylio. Fodd bynnag, ychydig iawn o oruchwylwyr Gwaith Di-dâl sydd wedi cael hyfforddiant penodol ar weithio gydag oedolion ifanc. Yn Hull ac East Riding, mae'r mater hwn wedi cael ei gydnabod, ac mae cynlluniau ar waith i oruchwylwyr Gwaith Di-dâl gael hyfforddiant i'w helpu i ddeall trawma ac aeddfedrwydd, er mwyn iddynt allu cefnogi oedolion ifanc yn well lle mae'r materion hyn wedi cael eu nodi.

Yn yr un modd, nid yw staff y rhaglen wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol ar aeddfedrwydd a datblygiad i’w helpu i ystyried sut i addasu eu dull gweithredu i sicrhau bod darpariaeth y rhaglen yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion oedolion ifanc.

**Staff y llys**

Roedd y rhan fwyaf o staff y llys yn ymarferwyr profiadol ac wedi bod yn eu swyddi ers cryn amser. Roedd y mwyafrif yn ymwybodol bod angen iddynt flaenoriaethu adroddiadau llys ar gyfer oedolion ifanc ac ystyried eu hanghenion penodol.

Roedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd gan staff y llys yn amrywio’n sylweddol ar draws yr ardaloedd a arolygwyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd staff y llys wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar gwblhau asesiadau aeddfedrwydd. Mewn un ardal, nid oedd staff y llys yn ymwybodol o aide memoire oedolion ifanc, sy’n arf a ddefnyddir i asesu aeddfedrwydd yn ystod y cam ysgrifennu adroddiadau, na phwysigrwydd ystyried aeddfedrwydd mewn adroddiadau llys o gwbl.

Lle’r oedd staff y llys nid yn unig wedi bod yn ymwneud â hyfforddiant ond hefyd â chysylltiad da â’r PDU ac wedi deall sut roedd eu rôl yn cyd-fynd â’r weledigaeth gyffredinol, roedd gwelliant amlwg yn ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd i’r llys.

## 2.5. Casgliadau a goblygiadau

Mae’r ymrwymiad a nodir yn y Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc, i fynd i’r afael ag anghenion unigryw oedolion ifanc drwy fabwysiadu dull gwahanol o ddarparu gwasanaethau prawf ar eu cyfer, yn gymeradwy. Fodd bynnag, mae rhoi’r fframwaith hwn ar waith wedi bod yn heriol i’r gwasanaethau prawf. Pan gyflwynwyd y fframwaith, nid oedd digon o ddealltwriaeth na sylw’n cael ei roi i ganfod beth oedd ei angen i wneud iddo weithio. O ganlyniad, er bod rhai pocedi o waith da’n cael ei wneud, nid yw’n gyffredin. Er mwyn gwreiddio’r fframwaith yn ymarferol, mae angen sefydlu strwythurau llywodraethu gwell gyda llinellau atebolrwydd clir ar gyfer ei gyflawni, a dyrannu digon o adnoddau.

Yn ein sampl, dim ond hanner yr achosion â lefelau uchel o angen dynodedig a gafodd fudd o Wasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu. O’r rhai a atgyfeiriwyd, nid oedd traean yn ymgysylltu â’r gwasanaethau.
Fodd bynnag, roedd yn dda gweld bod rhai ardaloedd wedi elwa o wasanaethau a gomisiynwyd ar y cyd â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a oedd wedi’u teilwra’n benodol ar gyfer oedolion ifanc.

Disgrifiodd rhai rwystrau rhag cael gafael ar ddata sy’n benodol i oedran, er enghraifft ar gyfraddau atgyfeirio, ymgysylltu a chwblhau, ond cawsom ein sicrhau bod y data hwn ar gael. Bydd data wedi’i ddadgyfuno yn ôl grŵp oedran yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar anghenion penodol oedolion ifanc ac yn helpu i nodi a mynd i’r afael ag unrhyw wahaniaethau o ran darparu gwasanaethau. Ar sail y data hwn, dylid defnyddio’r cylch comisiynu nesaf yn awr i ddenu gwasanaethau arbenigol sydd wedi’u cynllunio i fynd i’r afael ag anghenion penodol oedolion ifanc.

Ym mhob ardal a arolygwyd gennym, sefydlwyd prosesau ar y cyd i gefnogi’r pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion ac roedd y rhain wedi’u datblygu’n dda. Er bod y niferoedd wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes llawer o wybodaeth ar gael i helpu i ddeall y garfan hon o oedolion ifanc, gan fod prosesau cofnodi yn ei gwneud yn anodd cael gafael ar y data perthnasol. Felly, nid yw’n bosibl olrhain unrhyw dueddiadau, cynnydd neu ostyngiadau yn nifer yr achosion.

Pwysleisiodd staff a rheolwyr gymhlethdod a gofynion gweithio gydag oedolion ifanc. Yn gyffredinol, nid oeddent wedi cael digon o hyfforddiant i weithredu agweddau gorfodol ar y fframwaith, fel cwblhau asesiadau aeddfedrwydd. Lle roedd adnoddau ar gael, nid oedd yr holl staff yn ymwybodol ohonynt nac yn teimlo’n hyderus i’w defnyddio. Er mwyn gwreiddio’r dull gweithredu sy’n ystyriol o drawma sy’n cael ei argymell yn y fframwaith, mae’n rhaid i staff gael yr adnoddau, yr hyfforddiant a’r gefnogaeth angenrheidiol i wneud y gwaith yn dda.

# 3. Rhannu gwybodaeth, ymyriadau a gwasanaethau

Mae'r bennod hon yn archwilio effeithiolrwydd trefniadau rhannu gwybodaeth i hysbysu a chefnogi'r gwaith a ddarperir i oedolion ifanc dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Mae'n asesu pa mor addas yw'r ymyriadau a'r gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc. Yn olaf, mae'n trafod effeithiolrwydd gwaith partneriaeth o ran cefnogi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc.

## 3.1. Rhannu gwybodaeth

Efallai fod oedolion ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Prawf wedi profi sawl trawma ac, o ganlyniad, mae ganddynt sbectrwm o anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol. Mae mynd i'r afael â'r anghenion hyn yn hanfodol er mwyn hybu ymatal rhag troseddu pellach.

Yn yr achosion a arolygwyd gennym, a lle cofnodwyd gwybodaeth (gan nodi bylchau sylweddol yn y cofnodion), gwelsom y wybodaeth ddemograffig ganlynol:

- Nodwyd bod gan 38 y cant o oedolion ifanc anabledd, yn bennaf anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, gyda'r cyfraddau mor uchel â 60 y cant mewn un ardal.
- Roedd gan dros draean yr oedolion ifanc anghenion niwroamrywiaeth a oedd yn effeithio'n sylweddol arnynt.
- Roedd 48 y cant wedi bod yn ymwneud â gofal cymdeithasol plant yn y gorffennol, gan gynnwys cynlluniau amddiffyn plant a phlant mewn angen yn gysylltiedig â phrofiadau o esgeulustod, cam-drin a phryderon am gamfanteisio troseddol ar blant, gyda llawer ohonynt wedi cael eu magu mewn cartrefi treisgar.
- Roedd gan bron i draean o oedolion ifanc brofiad yn y system gofal ac roedd y rhan fwyaf yn derbyn cymorth gan wasanaethau gadael gofal.
- Roedd dros hanner wedi ymwneud yn flaenorol â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (GCI), gyda dim ond naw yn drosglwyddiadau uniongyrchol o'r GCI.
- Mewn un ardal a arolygwyd, bu dros ddwy ran o dair o oedolion ifanc yn ymwneud yn ddiweddar â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a gofal cymdeithasol i blant.

Mae'r proffil hwn yn dangos pwysigrwydd cael dealltwriaeth fanwl o anghenion cymhleth oedolion ifanc, a phwysigrwydd hanfodol rhannu gwybodaeth ag asiantaethau a gwasanaethau sydd wedi bod yn ymwneud â nhw o'r blaen.

Gall cael gafael ar wybodaeth, yn enwedig ar gyfer adroddiadau llys a gynhyrchir yr un diwrnod, fod yn heriol. Mae'r amserlen yn dynn, ac nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei derbyn yn ôl mewn pryd i'w dadansoddi a'i chynnwys yn yr adroddiad.

Mynegodd ymarferwyr y bu i ni gwrdd â nhw eu rhwystredigaeth ynghylch yr anawsterau a gawsant o ran cael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill, gan ddisgrifio'r angen i wneud nifer o geisiadau, cyfiawnhau dro ar ôl tro eu hangen am wybodaeth, ac weithiau hyd yn oed llywio drwy dimau cyfreithiol awdurdodau lleol. Teimlent fod rhai asiantaethau'n amharod i rannu gwybodaeth gefndir gan nad ydynt bob amser yn gweld ei pherthnasedd, o gofio nad yw'r oedolyn ifanc yn blentyn mwyach.

Yn ein sampl, gofynnwyd am wybodaeth am ofal cymdeithasol plant mewn dim ond 36 o'r 72 achos lle cynhyrchwyd adroddiad, a dim ond mewn chwe achos y cysylltwyd â'r GCI. Er gwaethaf yr anawsterau a nodwyd uchod, dylid gwneud y ceisiadau hyn am wybodaeth ar gyfer pob adroddiad, a dylid defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir, os yw'n berthnasol, fel sail i asesiad o aeddfedrwydd a'r adroddiad cyn-dedfrydu cyffredinol, gan gynnwys argymhellion dedfrydu.

Gwelsom hefyd nad oedd ymarferwyr bob amser yn gofyn y cwestiynau iawn wrth ofyn am wybodaeth gan asiantaethau partner. Er enghraifft, wrth wneud ymholiadau gydag uned cam-drin domestig yr heddlu, roeddent yn aml yn gwneud hynny dim ond i asesu a oedd yr oedolyn ifanc wedi dioddef cam-drin domestig yn uniongyrchol neu a oedd yn peri risg i eraill yn y cyd-destun hwn. Nid oeddent yn cydnabod y gallai gwiriadau cyfeiriad cartref ddatgelu bod yr oedolyn ifanc yn byw mewn cartref treisgar, a allai fod yn cyfrannu at ei droseddu a/neu'n peri risg i'w ddiogelwch. Yn ogystal, nid oedd ymarferwyr bob amser yn ceisio darganfod a oedd gan yr oedolyn ifanc hanes gyda gofal cymdeithasol plant fel plentyn agored i niwed; yn hytrach, roedd y ffocws yn tueddu i ganolbwyntio ar unrhyw risg o niwed y gallent ei achosi i blant.

Dywedodd staff y gall fod yn anodd cael gwybodaeth gan yr heddlu, yn enwedig gan adran cuddwybodaeth yr heddlu. Mae'r bwlch hwn yn arbennig o broblemus i ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion ifanc y gwyddys eu bod wedi cael eu hecsbloetio'n droseddol neu mewn perygl o gael eu hecsbloetio, neu sy'n gysylltiedig â phryderon am drais difrifol, gan ei fod yn cyfyngu ar eu gallu i gwblhau asesiad risg a diogelu cynhwysfawr ac i gynllunio i reoli unrhyw risgiau a nodwyd.

Wrth asesu'r risg o niwed a'r risg o aildroseddu, ni all ymarferwyr ddibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth a gedwir yng nghofnod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu am oedolyn ifanc, gan nad yw hyn bob amser yn dangos unrhyw ddatrysiadau y tu allan i'r llys y mae'r oedolyn ifanc wedi'u cael. Mae'r defnydd cynyddol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys i ddargyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol yn golygu y gall oedolion ifanc ymddangos mewn cofnodion prawf gydag ychydig neu ddim euogfarnau, er bod ganddynt hanes sylweddol o ymwneud â'r GCI. Er enghraifft, mewn un achos a arolygwyd, dim ond un euogfarn flaenorol a ddangoswyd ar gofnod heddlu am oedolyn ifanc, ond mewn gwirionedd roedd wedi derbyn o leiaf dri ymyriad dargyfeirio cyfiawnder ieuenctid. Gellir cael y wybodaeth hon yn aml gan y GCI.

Roedd ymarferwyr wedi gofyn am ganiatâd gan yr oedolion ifanc i gael mynediad at eu cofnodion mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd. Nid oedd cysondeb rhwng ceisio caniatâd a chael gafael ar wybodaeth; mewn rhai achosion, cafwyd mynediad at wybodaeth heb ganiatâd, tra mewn eraill, ceisiwyd caniatâd ac fe'i rhoddwyd, ond ni chafwyd gwybodaeth. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am arweiniad ar fynediad at wybodaeth yn y cyd-destun hwn i sicrhau bod arferion priodol yn cael eu dilyn a bod ymarferwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i hysbysu eu gwaith.

## 3.2. Ymyriadau

### Rhaglenni Achredig

Ar hyn o bryd, nid oes rhaglenni achrededig wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer oedolion ifanc, ac nid oes dull penodol o ddarparu rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer y grŵp oedran hwn. Codwyd y mater hwn yn gyson gan ymarferwyr prawf, a fynegodd bryder nad yw llawer o'r oedolion ifanc y maent yn gweithio gyda hwy efallai'n addas ar gyfer gwaith grŵp, oherwydd eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Hefyd, nid oeddent yn teimlo ei bod yn briodol iddynt fod yr unig oedolyn ifanc mewn grŵp o bobl hŷn. Ategwyd y safbwyntiau hyn hefyd gan rai hwyluswyr gwaith grŵp.

O'r 115 o achosion a arolygwyd, dim ond 20 o bobl ifanc oedd yn gorfod cwblhau rhaglen. Dim ond hanner yr unigolion hyn a ddechreuodd y rhaglen a dim ond saith wnaeth gynnydd digonol. Felly, siomedig oedd gweld nad yw canlyniadau dechrau a chwblhau rhaglenni'n cael eu dadansoddi'n rheolaidd yn ôl oedran er mwyn asesu unrhyw wahaniaethau a sicrhau mynediad cyfartal i oedolion ifanc. Ar ben hynny, nid oes dadansoddiad o bwy nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer rhaglenni a'r rhesymau dros hyn.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn adolygu'r gyfres bresennol o raglenni ymddygiad troseddol achrededig, i fireinio a datblygu'r cynnig. Yn ystod ein harolygiad, nid oeddem yn gallu sefydlu a fyddai unrhyw raglenni newydd yn canolbwyntio'n benodol ar risgiau ac anghenion oedolion ifanc fel grŵp ar wahân.

Er bod angen sylweddol, nid oes ymyriadau penodol yn ymwneud ag arfau a chyllyll ar gael mewn rhai ardaloedd lle mae troseddau cyllyll yn gyffredin ymysg oedolion ifanc. Mae'r mater hwn yn peri pryder arbennig o ystyried bod ail drosedd cyllyll yn arwain yn awtomatig at garcharu. Mewn o leiaf un ardal, roedd staff yn dod o hyd i ddeunyddiau eu hunain i bontio'r bwlch, ond nid oedd y rhain wedi'u hachredu yn unol â gofynion y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

### Ymyriadau a phecynnau cymorth strwythuredig

Mae'r pecyn cymorth Choices and Changes wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio mewn sesiynau un-i-un gyda dynion ifanc sy'n oedolion y nodwyd bod ganddynt aeddfedrwydd seicogymdeithasol isel. Nod yr ymarferion yn y pecyn yw hyrwyddo ymgysylltu a chefnogi oedolion ifanc i ddatblygu eu haeddfedrwydd. Nid oes ymyriad cyfatebol wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael ag anghenion menywod ifanc sydd â heriau tebyg.

Gwelsom ddefnydd cyfyngedig o Choices and Changes yn ymarferol, o bosibl am nad oedd staff wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol i'w ddarparu, a oedd yn golygu nad oeddent yn deall yr ymchwil y tu ôl i'r pecyn cymorth ac nad oeddent yn ddigon hyderus i'w ddarparu'n effeithiol.

Mae Next Steps yn rhaglen bontio arobryn a ddatblygwyd i ddechrau gan ranbarth Gwasanaeth Prawf Llundain. Ers hynny, mae wedi cael ei gyflwyno'n genedlaethol ac mae'n adnodd gwerthfawr i ymarferwyr o ran paratoi oedolion ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y GCI ar gyfer pontio i wasanaeth prawf i oedolion. Gwelsom ddefnydd cyfyngedig o'r adnodd hwn yn ymarferol, ond pan gafodd ei ddefnyddio mewn un achos yn Newham fe wnaethom nodi bod yr oedolyn ifanc wedi ymgysylltu'n dda â'r sesiynau a ddarparwyd i'w baratoi ar gyfer symud i oruchwyliaeth prawf oedolion.

Dim ond mewn pedwar o'r achosion a arolygwyd gennym y defnyddiwyd ymyriadau strwythuredig.

Yng Nghaerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland, roedd rheolwyr triniaeth wedi bod yn rhagweithiol drwy ddadansoddi llwyth achosion oedolion ifanc ar ôl gweld y cyfraddau atgyfeirio isel ar gyfer rhaglenni ac ymyriadau strwythuredig. Roeddent wedi ymgysylltu ag ymarferwyr i drafod addasrwydd pob unigolyn ar gyfer ymyriadau ar sail anghenion a nodwyd ac wedi archwilio ffyrdd o ymgysylltu â'r rheini a allai elwa o waith wedi'i dargedu.

### Gwaith di-dâl

Roedd angen i bum deg wyth o'r 115 o oedolion ifanc yn ein sampl gwblhau Gwaith Di-dâl. Mae data o'n rhaglen arolygu craidd i oedolion (2021-2023) yn dangos bod oedolion ifanc yn fwy tebygol o gael eu dedfrydu i Waith Di-dâl a chael mwy o oriau na'u cymheiriaid hŷn. Roedd staff ar draws ein harolwg yn gyson yn adleisio'r sylw hwn. Un esboniad a gynigiwyd oedd y canfyddiad bod oedolion ifanc yn 'ifanc, yn ffit ac yn abl'. Fodd bynnag, mae'r farn hon yn newid wrth ystyried yr oedolion ifanc yr archwiliwyd eu hachosion ac a oedd yn wynebu heriau fel lefelau anabledd uchel, niwroamrywiaeth, a phroblemau iechyd meddwl. Nid yw'r anawsterau hyn bob amser yn hysbys adeg y ddedfryd.

Roedd barn gyson ymysg staff nad oedd Gwaith Di-dâl bob amser yn opsiwn addas i oedolion ifanc oherwydd rhwystrau rhag mynychu. Roedd y pryderon yn cynnwys materion fel teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, lle gall fod risg o wrthdaro ag eraill i bobl ifanc mewn rhai ardaloedd.

Mae'r Model Gweithredu Targed Gwaith Di-dâl yn datgan na ddylai neb ddechrau Gwaith Di-dâl cyn i'r ymarferydd prawf gwblhau'r asesiad Gwaith Di-dâl. Dywedodd staff, fodd bynnag, y gallai'r amserlen ar gyfer dechrau Gwaith Di-dâl ei gwneud yn anodd cwblhau asesiad trylwyr ac ystyrlon, gan nad oeddent bob amser wedi cael digon o amser i gwrdd â'r oedolion ifanc, dod i'w hadnabod, ac asesu eu hanghenion yn llawn neu unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am Waith Di-dâl. Arweiniodd hyn at arfer nad yw'n cyd-fynd â'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a nodir yn y fframwaith polisi.

Gall pobl ar brawf gwblhau 30% o'u horiau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth drwy'r Campws Cymunedol, lle gallant ennill tystysgrifau addysgol a

galwedigaethol. Roeddem yn awyddus i gael gwybod faint o oedolion ifanc a oedd wedi elwa o’r cyfle hwn yn yr ardaloedd a arolygwyd ond gwelwyd nad yw’r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi’n rheolaidd ar lefel leol.

Nodwyd bod cyfraddau uchel o dorri amodau yn broblem drwy gydol ein harolygiad, ond yn enwedig mewn perthynas â Gwaith Di-dâl. Cydnabyddir hefyd ar lefel genedlaethol bod oedolion ifanc yn ystadegol yn llai tebygol o gwblhau gofynion Gwaith Di-dâl. Dylai PDUs ddadansoddi patrymau dedfrydu a chyfraddau cwblhau Gwaith Di-dâl i benderfynu a yw oedolion ifanc yn eu hardal yn ymgysylltu ar yr un raddfa â phobl eraill, ac os nad ydynt, pam ddim.

Byddwn yn edrych yn fanylach ar Waith Di-dâl mewn arolygiad thematig penodol a gyhoeddir yn 2025.

## 3.3. Cyd-destun y llys

Targed y gwasanaeth prawf ar gyfer cynhyrchu adroddiadau ar gyfer oedolion ifanc yw 60 y cant, yr oeddem yn ei ystyried yn nod isel o ystyried y cymhlethdodau a amlygwyd uchod. Cynhyrchwyd adroddiad ar gyfer dedfrydu ar gyfer 64 y cant o’r achosion oedolion ifanc a arolygwyd gennym.

Nodwyd nad yw dedfrydwyr bob amser am i adroddiadau fod yn sail i ddedfrydu, gan fod y ffocws yn y llys yn aml ar hwylustod, gyda’r ddedfryd yn cael ei phennu gan y math o drosedd a hanes troseddol yr oedolyn ifanc. Mae’r her hon yn cael ei gwaethygu pan fydd cynrychiolwyr cyfreithiol yn gwthio am y ddedfryd isaf bosibl, nad yw o bosibl yn cynnwys ymyrraeth gan y gwasanaeth prawf, er gwaethaf arwyddion clir o anghenion sylweddol sydd angen cymorth ymatal a rheoli risg ar gyfer yr oedolyn ifanc.

Dywedwyd wrthym hefyd fod safle oedolyn ifanc ar restr y llys yn aml yn penderfynu a oeddent wedi derbyn adroddiad. Os oeddent yn ymddangos yn y bore, roedd dedfrydu’n fwy tebygol o gael ei ohirio tan y prynhawn er mwyn gallu cwblhau adroddiad. Fodd bynnag, yn y prynhawn pan oedd amser yn brin, roeddent yn fwy tebygol o gael eu dedfrydu heb adroddiad.

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Yn Bury a Rochdale, mae tîm y llys yn cwblhau PSR ar gyfer 65 y cant o oedolion ifanc, gan ragori ar y targed prawf. Maent wedi rhoi proses ar waith lle mae staff y llys yn cwrdd â dedfrydwyr bob dydd i adolygu’r achosion a restrwyd a phenderfynu pa rai y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer adroddiadau. Teimla staff y llys fod ganddynt ddylanwad a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt. |

Mynegodd rhai o staff y llys y farn, er mwyn hyrwyddo gwasanaethau gwell a mwy cyson i oedolion ifanc, y dylid cael diwrnod llys penodol lle blaenoriaethir eu hanghenion, a lle mae gan ddedfrydwyr wybodaeth arbenigol am y grŵp hwn.

## 3.4. Mynediad at wasanaethau a gweithio gydag asiantaethau partner

Dywedodd bron i dri chwarter y staff eu bod ‘bob amser’ neu ‘y rhan fwyaf o’r amser’ yn gallu cael gafael ar ystod briodol o wasanaethau i ddiwallu anghenion a risgiau’r oedolyn ifanc. Roedd y ffigur uchel hwn yn rhannol yn bodoli oherwydd yr adborth gan staff yn Newham, a oedd yn gweithio mewn canolfan i oedolion ifanc gyda llu o wasanaethau wedi’u cyd-leoli a lle’r oedd y cymorth a gynigiwyd yn rhagorol.

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Yn Newham, gallai oedolion ifanc gael gafael ar gymorth gan amrywiaeth o fentoriaid, a llawer ohonynt yn ddiwylliannol wybodus er mwyn cyfateb i ddemograffeg y gymuned. Roedd y |

ddarpariaeth iechyd yn arbennig o drawiadol. Aseswyd pob oedolyn ifanc ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a chawsant gefnogaeth barhaus os oedd ei hangen arnynt. Roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i rai oedolion ifanc, yr oedd eu hanghenion o ran niwroamrywiaeth yn cael eu hasesu am y tro cyntaf. Roedd hefyd yn braf gweld rhywfaint o ddadansoddi gan bartneriaid iechyd a oedd yn dangos bod ymgysylltu ag iechyd hefyd yn hyrwyddo gwell ymgysylltiad ag apwyntiadau statudol. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig.

Mewn ardaloedd eraill, roedd y sefyllfa'n fwy amrywiol. Roedd staff yn cael trafferth cael gafael ar wasanaethau i ddiwallu anghenion yr oedolion ifanc roeddent yn gweithio gyda nhw.

Mynegodd pob ardal bryder ynghylch effaith 'ymyl y dibyn', lle mae nifer o wasanaethau'n dod i ben pan yn 18 oed, a phrin yw'r ddarpariaeth wedi'i thargedu mewn gwasanaethau prawf i oedolion ifanc. Mewn rhai achosion, yr ymarferydd prawf oedd yr unig un a oedd yn ymwneud â chefnogi'r oedolyn ifanc. Roedd hyn yn gwneud eu perthynas â nhw yn bwysicach fyth ac roedd y galw ar eu hamser hyd yn oed yn fwy.

Yn ein hymgynghoriad ag oedolion ifanc, dywedodd 59 y cant eu bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, roedd y rhai ag anghenion mwy cymhleth yn llai tebygol o deimlo eu bod yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Dywedodd un oedolyn ifanc wrthym:

> *"Mae'r tîm lles sydd wedi cynnal fy nghefnogaeth dicter yn anhygoel. Dydyn nhw ddim wedi fy ngwthio i newid na chael canlyniadau ac nid yw'n teimlo fel rhywbeth ticio blychau fel y mae cyrsiau prawf weithiau yn ei wneud, felly rwy'n meddwl bod hynny'n dda iawn ac mae'r cwnsela galar wedi bod yn dda hefyd."*

I'r gwrthwyneb, dywedodd un arall wrthym:

> *"Dydw i ddim wedi cael cynnig unrhyw help o gwbl, nid yw fy swyddfa prawf yn gwneud dim byd i'm helpu i o gwbl. Yn wir, maen nhw'n gwneud fy iechyd meddwl yn waeth."*

Ym mhob ardal bron yr ymwelwyd â hi, roedd arweinwyr wedi mynd ati i ystyried ffyrdd o gau bylchau yn y gwasanaethau sydd ar gael i oedolion ifanc. Yn Ne Lerpwl, cydweithiodd darparwr llesiant y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (CRS), y Growth Company, ag Everton in the Community i wella eu gwasanaethau i oedolion ifanc drwy weithgareddau chwaraeon. Yn ogystal, sefydlwyd dwy swydd graddfa PSO gan ddefnyddio cyllid Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) i gynnig cefnogaeth allgymorth i oedolion ifanc y tu hwnt i'r rhai yn y garfan IOM.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, roedd oedolion ifanc a oedd yn symud o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i wasanaethau oedolion yn cael cynnig cymorth ychwanegol a mynediad at wasanaethau drwy'r cynllun IOM, a oedd yn cael ei ystyried yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, ar gyfer oedolion ifanc eraill nad oeddent wedi pontio, roedd cael gafael ar wasanaethau'n dibynnu ar gyrraedd trothwy a oedd yn seiliedig yn bennaf ar y risg o aildroseddu. Ymysg yr achosion a arolygwyd gennym, pennwyd bod 21 o oedolion ifanc yn addas ar gyfer IOM, ac roedd saith ohonynt yn defnyddio'r gwasanaeth. Gwnaeth y rhai a ddefnyddiodd IOM gynnydd da o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsant.

Roedd bron i draean o'r oedolion ifanc yr adolygwyd eu hachosion wedi bod mewn gofal ac yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gadael gofal, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio'r gefnogaeth hon. Roedd ymarferwyr yn canmol y gefnogaeth a ddarparwyd i'r oedolion ifanc hyn, a sylwodd arolygwyr ar gynllunio a darparu effeithiol ar y cyd rhwng staff prawf a chynghorwyr personol gadael gofal. Roedd y dull cydweithredol hwn yn cefnogi ansawdd cyffredinol y gwaith a ddarparwyd i'r oedolion ifanc ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gefnogi eu hanghenion.

Mewn rhai achosion, mae angen atgyfeiriadau diogelu oedolion i fynd i'r afael â phryderon sylweddol ynghylch lles. Lle'r oedd hyn wedi'i wneud yn dda, roedd dull gweithredu ymarferwyr yn uniongyrchol, gan sicrhau bod oedolion ifanc agored i niwed yn gallu cael gafael ar gymorth yr oedd ei angen yn fawr arnynt. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd nodi rhai achosion lle'r oedd angen atgyfeirio ond nad oedd hynny yn cael ei wneud. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am ganllawiau cliriach i ymarferwyr prawf ar drothwyon ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a disgwyliadau mewn perthynas ag atgyfeiriadau. Ni ellir tybio na fydd trothwyon yn cael eu cyrraedd oherwydd y galw canfyddedig ar y gwasanaethau hyn.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, prin oedd yr ymwybyddiaeth o ba ddarpariaeth arbenigol a allai fod ar gael yn lleol. Gwelsom y defnydd o wasanaethau arbenigol allanol mewn dim ond traean o'r achosion a adolygwyd gennym.

**Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant**

Mae llai o ffocws ar fenywod ifanc yn y Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc, a chodwyd hyn yn gyson yn ystod ein harolygiad. Nid oes adnodd dynodedig i asesu aeddfedrwydd yn benodol ar gyfer menywod ifanc, ac nid oes unrhyw becynnau cymorth wedi'u targedu ar gael i'w defnyddio gyda nhw. Ar ben hynny, er bod menywod ifanc fel arfer yn cael gafael ar gymorth ac ymyriadau drwy ganolfannau menywod, ni fydd y dull bob amser yn cael ei deilwra i'w hoedran a'u lefel aeddfedrwydd. Nid oedd llawer o wahaniaeth yn ansawdd yr asesu a chynllunio ar gyfer menywod ifanc o'i gymharu â dynion ifanc. Fodd bynnag, roedd adolygu eu hymataliad a'u cynnydd, a'u hanghenion diogelwch a lles, yn waeth o ran ansawdd nag ar gyfer dynion ifanc, ac mae angen rhoi sylw i hynny.

**Enghraifft o ymarfer da**

Fel rhan o'r prosiect Youth to Adult, mae Advance yn darparu dull gweithredu sy'n ystyriol o oedran, rhywedd ac o drawma i fenywod ifanc sydd ar brawf yng nghanolfan menywod Newham yn Nwyrain Llundain. Gan ddefnyddio eu model Minerva, maen nhw'n edrych yn gyfannol ar anghenion menywod ifanc, ac yn cynnig cymorth cyson drwy weithwyr allweddol, grwpiau a gweithgareddau mewn lle diogel i fenywod yn unig.

Gall menywod ifanc fynd i'w hapwyntiadau prawf yn y ganolfan menywod a chael mynediad at gymorth cofleidiol gan Advance am 12 i 18 mis. Mae hyn yn golygu bod cymorth gwaith allweddol yn aml yn ymestyn y tu hwnt i hyd eu hymyriad prawf. Mae'r bartneriaeth rhwng Advance a'r gwasanaeth prawf yn galluogi menywod ifanc i fynychu eu hapwyntiadau prawf mewn amgylchedd sy'n seiliedig ar rywedd a chael cefnogaeth gyfannol sy'n briodol i'w hoedran gan y ddwy asiantaeth.

## 3.5. Casgliadau a goblygiadau

Er mwyn gweithio'n effeithiol gydag oedolion ifanc mewn ffordd sy'n ystyriol o aeddfedrwydd a thrawma, rhaid i staff ddeall eu profiadau bywyd. O ystyried eu hoed, mae profiadau arwyddocaol yr oedolion ifanc yn ystod plentyndod yn arbennig o berthnasol oherwydd, i lawer, maent yn ddigwyddiadau diweddar. Er mwyn cwblhau adroddiad llys amserol neu asesiad cychwynnol, mae angen i staff gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol yn gyflym, gan bwysleisio pwysigrwydd cytundebau ac arferion rhannu gwybodaeth effeithiol ar draws asiantaethau.

Mewn bron i hanner yr achosion a arolygwyd gennym, roedd gan y person ifanc gysylltiad blaenorol â gofal cymdeithasol plant, a oedd yn aml yn arwyddocaol. Gwelsom fod gorchmynion llys yn aml yn dechrau heb i'r holl wybodaeth berthnasol gael ei derbyn a/neu ei dadansoddi i hysbysu'r asesiad a'r ymyriadau. Anaml y ceisir gwybodaeth gan y GCI, er bod llawer o oedolion ifanc ar brawf wedi cael cyswllt â hwy o'r blaen. Mae gan y GCI gyfoeth o wybodaeth am y plant y maent yn gweithio

gyda nhw, a phe bai staff prawf yn cael mynediad at hyn, byddai'n rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r unigolyn, eu hanghenion a'u profiadau bywyd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddatrysiadau blaenorol y tu allan i'r llys, nad ydynt bob amser yn ymddangos ar gofnodion yr heddlu ond a allai helpu i egluro unrhyw batrymau troseddu.

Mae prosesau wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal gwiriadau am gam-drin domestig gydag uned cam-drin domestig yr heddlu. Mae'r cyfnewid gwybodaeth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sefyllfaoedd lle mae person ar brawf wedi dioddef neu wedi cyflawni cam-drin domestig. Yr hyn nad yw'n cael ei ystyried fel arfer yw cysylltiad â cham-drin domestig, sy'n ffactor pwysig ym mhrofiadau bywyd llawer o oedolion ifanc sydd ar brawf ac y mae angen ei ystyried mewn perthynas â risg a diogelu.

Fe wnaethom nodi rhai enghreifftiau rhagorol o weithio mewn partneriaeth yn ymarferol, er enghraifft y gwaith rhwng gwasanaethau prawf a thimau gadael gofal i gefnogi oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal. Roedd gweithio mewn partneriaeth ar yr achosion hyn wedi arwain at well asesu a chynllunio, a oedd yn aml yn cynnwys dull cydlynol o ddarparu ymyriadau a gwell mynediad at wasanaethau drwy rannu adnoddau.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddulliau penodol wedi'u targedu ar gyfer menywod ifanc, y mae eu hanghenion yn aml yn cael sylw ar sail rhywedd, gyda sylw cyfyngedig yn cael ei roi i'w haeddfedrwydd. Er mwyn meithrin dull mwy pwrpasol o weithio gyda grwpiau amrywiol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, mae angen i ymarferwyr gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r darparwyr trydydd sector sydd ar gael sy'n arbenigo mewn ymgysylltu ag oedolion ifanc o wahanol gefndiroedd.

Byddai dadansoddi cyfraddau atgyfeirio, dechrau a chwblhau ar gyfer oedolion ifanc yn rhoi gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd rhaglenni gwaith grŵp ac UPW. Mae angen rhoi sylw penodol i Waith Di-dâl oherwydd ei ddefnydd mwy mynych ar gyfer oedolion ifanc ac adroddiadau am heriau cysylltiedig ag ymgysylltu a chwblhau.

# 4. Ansawdd adroddiadau a goruchwylio achosion

Mae'r bennod hon yn adrodd ar ansawdd y gwaith a wneir gydag oedolion ifanc. Mae'n archwilio dealltwriaeth yr ymarferwyr o aeddfedrwydd, a sut yr asesir ac y rhoddir cyfrif amdano adeg y ddedfryd a thrwy gydol y cyfnod goruchwylio. Mae'r bennod hefyd yn gwerthuso pa mor dda y mae'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol a sylwadau ar y gwaith pontio o gyfiawnder ieuenctid i wasanaeth prawf i oedolion.

## 4.1. Asesu

### Gwaith llys ac adroddiadau

Mae data o'n rhaglen arolygu graidd i oedolion yn dangos bod ansawdd yr adroddiadau ar gyfer oedolion ifanc yn gyson is na'r hyn a ysgrifennwyd ar gyfer pobl hŷn. I'r rhai dros 26 oed, roedd ansawdd yr adroddiadau'n cyrraedd ein safonau mewn 47 y cant o'r achosion; ar gyfer oedolion ifanc, dim ond mewn 23 y cant o'r achosion yr oeddent yn ddigonol.

Mae canfyddiadau ein harchwiliad yn cyd-fynd â phryderon a godwyd gan Gymdeithas yr Ynadon (2021), yn benodol y ffocws cyfyngedig ar y cysylltiad rhwng aeddfedrwydd a'r drosedd, yn ogystal â diffyg ystyriaeth o aeddfedrwydd yn y ddedfryd a argymhellir mewn adroddiadau cyn-dedfrydu.

Mewn 73 o'r 115 achos a arolygwyd gennym, dedfrydwyd oedolion ifanc gydag adroddiad llys. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn adroddiadau ysgrifenedig fformat byr a oedd yn cael eu hystyried yn briodol yn gyffredinol ar gyfer yr achos. Fodd bynnag, roedd aeddfedrwydd yr oedolyn ifanc yn cael ei ystyried yn ddigonol, ac roedd awdur yr adroddiad yn deall eu hanghenion yn ddigonol, mewn dim ond hanner yr adroddiadau hyn. O ganlyniad, ni chafodd eu hymddygiad troseddol ei roi mewn cyd-destun ar gyfer y llys. Defnyddiwyd yr offeryn asesu aeddfedrwydd mewn hyd yn oed llai o achosion (28). Gwelsom nad oedd defnyddio'r adnodd yn arwain yn gyson at adroddiadau a oedd yn fwy ystyriol o aeddfedrwydd.

Mewn dim ond 33 o'r 73 achos a arolygwyd gennym y gofynnwyd am wybodaeth gan uned cam-drin domestig yr heddlu, a oedd ar gael, cyn cyflwyno cyngor i'r llys. Mewn 22 o achosion, gofynnwyd am wybodaeth gan ofal cymdeithasol plant, ac fe'i derbyniwyd a'i chynhwyswyd yn y wybodaeth a roddwyd i ddedfrydwyr. Mewn dros ddwy ran o dair o'r achosion, ni wnaed unrhyw wiriadau gyda'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI) i holi a oeddent wedi gweithio gyda'r oedolyn ifanc yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried bod gan yr oedolyn ifanc, mewn 54 y cant o'r achosion a ddewiswyd gennym ar hap ar gyfer yr arolygiad hwn, brofiad blaenorol o'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae gan y GCI gyfoeth o wybodaeth am yr oedolion ifanc y maent wedi gweithio gyda nhw, gan gynnwys unrhyw anghenion lles ac amrywiaeth, yn ogystal â gwybodaeth am ymatebion blaenorol i oruchwyliaeth. Byddai hyn i gyd yn berthnasol i'r asesiad aeddfedrwydd a dealltwriaeth o angen. Maent hefyd yn gwybod am ddatrysiadau blaenorol y tu allan i'r llys y gallai person ifanc fod wedi'u cael, a allai fod yn berthnasol i asesiadau risg.

Yn yr achosion a arolygwyd gennym, roedd 15 o oedolion ifanc a ddedfrydwyd fel oedolion yn 17 oed neu'n iau pan wnaethant gyflawni eu troseddau. Fodd bynnag, oherwydd yr oedi a'r ôl-groniadau yn y system gyfiawnder, cawsant eu dedfrydu mewn llys oedolion gan fod yn destun prosesau oedolion. Mae hyd yn oed yn fwy hanfodol yn yr achosion hyn bod ymarferwyr yn sicrhau bod oedran yr unigolyn yn cael ei gydnabod yn llawn adeg y trosedd, a bod eu hoedran a'u haeddfedrwydd yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y broses ddedfrydu.

Nid oedd adroddiadau'n ystyried profiadau o drawma fel mater o drefn, ac yn rhoi digon o sylw i les yr oedolyn ifanc mewn dim ond 55 y cant o'r achosion. Roedd materion yn ymwneud ag amrywiaeth yn cael eu hanwybyddu'n rhy aml, a phrin oedd y cyfeiriadau at ffactorau cadarnhaol a chryfderau yn hanner yr achosion. Roedd yr ymarferydd wedi ystyried a fyddai'r oedolyn ifanc yn

gallu cydymffurfio â'i ddedfryd mewn llai na hanner yr achosion. Mae hyn yn esgeulustod a allai arwain at ganlyniadau arwyddocaol i oedolion ifanc, a gallai fod yn gysylltiedig â'r cyfraddau uchel o dor-amod yn y grŵp hwn.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon ag ansawdd yr adroddiadau mewn ychydig o dan chwarter yr achosion, gydag amrywiaeth sylweddol rhwng ardaloedd.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Cafodd Jordan ddedfryd o garchar yn dilyn adroddiad llafar. Cwblhaodd swyddog y llys asesiad aeddfedrwydd a chyflwynwyd y sgôr i'r llys, ond ni ddarparwyd cyd-destun nac ystyriwyd sut yr effeithiodd ei aeddfedrwydd isel arno. Ni wnaed unrhyw ymholiadau gyda'r heddlu na gofal cymdeithasol plant, ac nid oedd adroddiad llafar yn briodol o ystyried oedran Jordan a'r risg o gael ei ddedfrydu i'r ddalfa. Ar ôl y ddedfryd, canfu'r ymarferydd prawf dynodedig fod Jordan wedi ymwneud yn flaenorol â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'i fod wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant. Bu pryderon ei fod yn cael ei ecsbloetio gan bobl hŷn. Byddai'r llys wedi elwa o wybod hyn cyn dedfrydu. |

### Asesu

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymarferwyr yn ymgysylltu'n weithredol ag oedolion ifanc yn eu hasesiadau (86 o 115 o achosion). Roeddent yn ystyried ffactorau fel lefel eu cymhelliant, eu parodrwydd a'u hawydd i gymryd rhan mewn ymyriadau gofynnol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr asesiad yn nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol oedolion ifanc yn gywir, yn ogystal â'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu hymddygiad troseddol a'r rhwystrau posibl i ymatal. Roedd anawsterau iechyd meddwl ac emosiynol, camddefnyddio sylweddau, materion hunaniaeth, diffyg rheolaeth dros fywyd bob dydd, a diffyg nodau, yn ogystal â gallu cyfyngedig i adeiladu cyfalaf cymdeithasol, yn nodweddion sy'n codi dro ar ôl tro ym mywydau'r oedolion ifanc yr arolygwyd eu hachosion.

Nid oedd asesiadau'n cael eu hysbysu'n gyson gan wybodaeth gan asiantaethau eraill pan fyddai eu mewnbwn yn ddisgwyliedig a lle byddai wedi ychwanegu gwerth. Roedd hyn yn rhannol oherwydd nad oedd ymarferwyr bob amser yn gofyn am y wybodaeth angenrheidiol a, phan wnaethant hynny, nid oeddent bob amser yn gofyn yr holl gwestiynau cywir. Er ei bod yn arfer cyffredin i ymarferwyr prawf ofyn i dîm cam-drin domestig yr heddlu benderfynu a yw unigolyn wedi dioddef neu wedi cyflawni cam-drin domestig, nid ydynt bob amser yn sefydlu a yw unigolion sy'n byw yn y cyfeiriad wedi gweld cam-drin domestig. O ganlyniad, gall fod yn anodd asesu a yw'r oedolyn ifanc wedi bod neu'n byw mewn amgylchedd treisgar ar hyn o bryd, a allai hyn fod yn cyfrannu at ei droseddu neu a oes unrhyw bryderon diogelu y mae angen eu hystyried. Lle gofynnwyd am wybodaeth berthnasol ac y'i derbyniwyd, cafodd ei dadansoddi a'i chynnwys yn ddigonol yn yr asesiad mewn ychydig dros hanner yr achosion.

Roedd y sefyllfa'n adlewyrchu'r sefyllfa o ran gwiriadau gyda gofal cymdeithasol plant. Nid oedd ymarferwyr yn gofyn yn gyson am wybodaeth a, phan oeddent yn gwneud hynny, nid oeddent bob amser yn ei defnyddio fel sail i'w hasesiad a'u dealltwriaeth gyffredinol o'r oedolyn ifanc. Roedd patrwm o geisio gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw risg y gallai'r oedolyn ifanc ei beri i blant, heb archwilio a oedd yr oedolyn ifanc wedi bod yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol ei hun yn y gorffennol. O'n gwiriadau awdurdod lleol ein hunain, gwelsom fod gan o leiaf hanner yr oedolion ifanc yn ein harolwg hanes o ymwneud â gofal cymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd. Mewn un ardal, roedd 73 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym yn rhannu'r profiad arwyddocaol hwn.

Mae deall profiadau bywyd oedolion ifanc yn hanfodol i'w cefnogi'n effeithiol, yn enwedig o ystyried heriau fel aeddfedrwydd isel ac anawsterau eraill y gallent eu hwynebu. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn cael y ddealltwriaeth orau o'r oedolyn ifanc, oherwydd mae hyn yn rhoi'r wybodaeth

angenrheidiol iddynt gymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon, hyd yn oed pan fydd pynciau'n anodd eu trafod. Mae'r dull hwn yn hanfodol i helpu oedolion ifanc i archwilio unrhyw ffactorau sylfaenol a allai fod yn gyrru eu hymddygiad troseddol, nad ydynt efallai wedi'u cydnabod yn llawn. Mae hefyd yn golygu nad oes rhaid iddynt egluro a mynd dros bethau y maent eisoes wedi'u trafod gyda gweithwyr proffesiynol eraill.

Cyfeiriodd oedolyn ifanc at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth o'i safbwynt ef:

> *"Pe bawn i'n gallu cyfrannu at sut mae'r gwasanaeth prawf yn cael ei redeg, byddwn i'n hoffi iddyn nhw ofyn am ddogfennau trosglwyddo priodol gan dimau TTI er mwyn iddyn nhw ein hadnabod ni'n well a does dim rhaid i ni fynd dros yr un pethau, ac yna efallai y byddan nhw'n gwybod pwy ydyn ni'n well a sut i'n helpu ni."*

Po fwyaf yw'r ddealltwriaeth sydd gan ymarferwyr, y mwyaf tebygol fydd hi y gallant gysylltu â'r oedolyn ifanc gydag empathi, gan ffurfio sail perthynas gadarnhaol. Mae'n hanfodol bod unigolion sydd wedi profi trawma a phrofiadau bywyd anodd, yn enwedig pobl iau, yn osgoi ailymweld â'u hamgylchiadau dro ar ôl tro. Mae'r Fframwaith Polisi Oedolion Ifanc yn pwysleisio'n briodol yr angen i ystyried trawma yn y gorffennol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ond gwelsom mai dim ond mewn 60 y cant o'r asesiadau yr oedd hyn wedi'i wneud.

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Cafodd Tom ei oruchwylio gan y gwasanaeth prawf yn Swydd Gaerloyw. Mae'r asesiad yn rhoi syniad da o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu Tom ac mae'n archwilio ymhellach yr agweddau ar ei ymddygiad sy'n dangos aeddfedrwydd isel, fel ei sgiliau datrys problemau gwael a'i ddiffyg trefn. Mae gan Tom brofiad o ofal, ac mae wedi bod yn dyst i drais fel plentyn ac wedi profi trawma sylweddol. Mae'r ymarferydd yn dadansoddi sut y gallai hyn fod wedi cyfrannu at rai o'r agweddau negyddol y mae wedi bod yn eu harddangos tuag at fenywod. Mae'r asesiad hefyd yn archwilio sut y gallai ei brofiadau gofal fod wedi effeithio ar ei ymdeimlad o reolaeth a chyfrifoldeb. Mae'r ymarferydd yn cydnabod y gallai cred Tom bod gweithwyr proffesiynol yn ei ystyried fel 'troseddwr' yn unig wedi effeithio ar ei gymhelliant i ymgysylltu â'r gwasanaeth prawf o'r cychwyn cyntaf. Felly, mae mynd i'r afael â hyn a'i drafod gyda Tom yn cael blaenoriaeth. |

**Amrywiaeth a gwahaniaethu**
Anaml iawn y rhoddwyd sylw i faterion yn ymwneud â gwahaniaethu gydag oedolion ifanc, er bod ymarferwyr yn cydnabod bod gan lawer ohonynt nodweddion gwarchodedig lluosog, ochr yn ochr â'u hoedran, a'u bod yn debygol o fod wedi wynebu gwahaniaethu a heriau o ganlyniad. Roedd methu â chymryd rhan yn y trafodaethau hyn yn ystod y cam asesu yn golygu nad oedd effaith unrhyw brofiadau o wahaniaethu yn cael ei harchwilio o hyd, ac felly nid oedd bob amser yn cael ei hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Os yw ymarferwyr am gynnig cefnogaeth ystyrlon ac ymgysylltu'n gadarnhaol ag oedolion ifanc yn eu hymyriadau, mae angen iddynt ddeall ac ystyried unrhyw brofiadau o wahaniaethu ac unrhyw effaith a gafodd y rhain ar ddatblygiad, hunan-barch a lles yr unigolyn.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Mae Cristian yn wladolyn o Rwmania sydd wedi nodi Rwmaneg fel ei ddewis iaith. Ni chysylltwyd ag ef yn y ddalfa nac yn syth ar ôl ei ryddhau, ac ymddengys bod pob cyswllt dilynol wedi bod yn Saesneg. Nid oes cofnod o ddefnyddio cyfieithydd. Mae'r asesiad yn ystyried bod troseddu Cristian yn gysylltiedig â sgiliau meddwl gwael oherwydd lefel isel o aeddfedrwydd. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad yn ystyried ei brofiad fel gwladolyn o Rwmania yn dod i Loegr fel person ifanc, unrhyw brofiadau o wahaniaethu, anawsterau gyda methu â siarad yr iaith, a chael ei ddenu i droseddu yn ifanc gan bobl hŷn (fel a rannwyd â'i weithiwr allweddol yn y ddalfa). |

## 4.2. Cynllunio

Roedd oedolion ifanc yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio mewn 63 y cant o achosion, gyda gwaith i ddatblygu cryfderau ac adeiladu ar ffactorau amddiffynnol yn amlwg. Fodd bynnag, nid oedd ymarferwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar fynd i'r afael â ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu. Mae'r ddwy elfen yn bwysig ar gyfer cyflawni gwaith cyfannol sydd wedi'i dargedu'n dda.

Roedd rhwystrau i ymgysylltu yn bresennol ym mhob achos ond tri yn y sampl, ond cawsant eu nodi a chynllunio ar eu cyfer yn ddigonol mewn dim ond 58. Dim ond 20 y cant o'r achosion perthnasol oedd yn cynnwys trafodaethau am brofiadau o wahaniaethu a'u heffaith bosibl. Yn ystod y cam cynllunio, mae angen nodi ac archwilio pob her bosibl gyda'r oedolyn ifanc, er mwyn iddo gael y cyfle gorau posibl i allu ymgysylltu â'i ymyriadau a chael budd ohonynt a chwblhau ei ddedfryd yn llwyddiannus.

Y pecyn cymorth a oedd yn cael ei gynnwys amlaf yn y gwaith cynllunio oedd Choices and Changes (27 achos), a byddem wedi disgwyl ei weld yn cael ei ddefnyddio'n ehangach. Cafodd atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (CRS) eu cynnwys yn y gwaith cynllunio mewn ychydig o dan ddwy ran o dair o'r achosion. Cefnogaeth ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) oedd y gwasanaeth yr oedd ei angen fwyaf o bell ffordd. Nodwyd bod ETE yn broblem sylweddol i 36 y cant o'r oedolion ifanc yr arolygwyd eu hachosion.

Ni chafodd pob llwybr CRS priodol ei nodi a'i sefydlu yn ystod y cam cynllunio, a phan gyfeiriodd ymarferwyr at CRS, nid oeddent bob amser yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am faterion risg a diogelu. Nid yw'r diffyg cysondeb hwn rhwng cynlluniau ymarferwyr prawf a dealltwriaeth darparwyr CRS o anghenion a risgiau yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o'r oedolyn ifanc na dull cydlynol o weithio gyda nhw.

Mynegodd ymarferwyr bryderon ynghylch addasrwydd gwaith grŵp ar gyfer oedolion ifanc a'u gallu i weithredu'n effeithiol yn yr amgylchedd hwnnw. Fodd bynnag, mewn dros hanner yr achosion lle dylai addasrwydd hyn fod wedi cael ei ystyried gan yr ymarferydd sy'n datblygu'r cynllun ymyrryd, nid oedd hynny wedi digwydd. Pan wnaethom nodi y gallai ymyriadau strwythuredig fod wedi bod yn addas, dim ond mewn 27 y cant o achosion y cawsant eu hystyried yn ystod y cam cynllunio.

Yn gyffredinol, nid oedd y gwaith cynllunio'n mynd i'r afael yn gyson ag achosion sylfaenol troseddu oedolion ifanc, yn cefnogi eu hymgysylltiad ac ymatal, nac yn gosod y targedau cywir i reoli a lleihau risgiau.

## 4.3. Cyflawni dedfrydau

### Cefnogi ymgysylltiad oedolion ifanc o'u safbwynt nhw

Un o ganfyddiadau mwyaf arwyddocaol ein hymgynghoriad ag oedolion ifanc oedd eu barn gyson mai eu perthynas â'u hymarferydd oedd y ffactor 'tyngedfennol' a oedd yn pennu a fyddent yn ymgysylltu'n llwyddiannus. Roedd teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt yn allweddol, a phan oeddent yn teimlo bod eu gweithwyr wedi rhoi o'u hamser i geisio eu deall, roedd hyn yn cael ei weld yn unfrydol fel rhywbeth buddiol. Nododd un oedolyn ifanc yr amrywiad yn y ffordd y mae ymarferwyr yn gweithio a sut yr oedd un gweithiwr yn sefyll allan yn eu dull gweithredu.

Dywedodd wrthym:

> *"Nid yw'r ddau arall wedi bod yn dda, roedd yr ail yn ystyriol iawn, roedd yn ymddangos ei bod wedi bod drwy rywbeth ei hun, felly roedd hi eisiau helpu ond roedd y ddau arall yn ymddangos fel eu bod nhw yno am yr arian. Roedd yr ail un yn anfeirniadol, yn broffesiynol iawn, ac mae'n bwysig iawn eu bod yn deall y newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn ifanc. Roeddwn i'n teimlo bod yr ail un yn deall hyn."*

Ar ôl sefydlu ymddiriedaeth gydag ymarferydd, disgrifiodd yr oedolion ifanc y fantais o gael rhywun i siarad â nhw. I lawer, mae hwn yn brofiad newydd. Mae sgiliau a dealltwriaeth y gweithiwr, ynghyd â gallu treulio amser yn meithrin perthynas, wir yn gallu helpu i gefnogi gwaith pwysig fel gwneud yn siŵr bod oedolion ifanc yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi.

Disgrifiodd un oedolyn ifanc fanteision hyn iddyn nhw:

> *"Mae'n hawdd siarad â fy ngweithiwr am bethau, maen nhw hefyd wedi fy helpu ar ôl i rywun ymosod arnaf sawl gwaith ac ar ôl i mi geisio lladd fy hun a chael apwyntiadau gyda'r tîm lles."*

Yn yr un modd, mae perthynas o ymddiriedaeth yn golygu y gellir ymgymryd â gwaith i fynd i'r afael â risg ac aildroseddu'n fwy effeithiol, fel yn yr achos hwn:

> *"Swyddog da yn fy llygaid i yw un sy'n fy neall ac sy'n fy helpu i ddeall beth wnes i a pham, ac sy'n gallu fy helpu i ddeall fy mhroblemau dicter."*

### Goruchwylio dedfrydau cymunedol

Ar sail yr adborth a gawsom gan oedolion ifanc, roedd yn braf gweld bod ymarferwyr, yn y rhan fwyaf o achosion, yn canolbwyntio ar feithrin a chynnal perthynas waith effeithiol â nhw. Roedd amlder a natur yr apwyntiadau a gynigiwyd yn briodol, a defnyddiodd ymarferwyr hyblygrwydd i gefnogi ac annog ymgysylltiad a chyfranogiad oedolion ifanc pryd bynnag y bo'n bosibl a phan fo angen.

Lle'r oedd cydymffurfio'n dda, dechreuodd y rhan fwyaf o ymyriadau yn brydlon. Mewn ychydig o dan ddwy ran o dair o'r achosion, roedd ffocws i'r sesiynau gyda'r oedolyn ifanc a'r cynnwys yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid oedd ymyriadau bob amser yn cael eu trefnu'n briodol, ac mae hwn yn faes y mae angen ei gryfhau. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr angen i gwrdd ag amserlenni a therfynau amser atgyfeirio, fel atgyfeirio'r oedolyn ifanc at Waith Di-dâl. Nid oedd bob amser yn briodol i oedolyn ifanc ddechrau Gwaith Di-dâl cyn i waith arall gael ei wneud neu fod perthnasoedd wedi cael eu meithrin. Mae'r dull hwn yn hanfodol er mwyn galluogi ymarferwyr i asesu'n briodol unrhyw bryderon sydd gan oedolion ifanc ynghylch cymryd rhan yn yr ymyriadau a nodir yn y cynllun, neu i'w cefnogi'n effeithiol drwy'r cynllun.

Cwblhawyd ymweliadau cartref ar ddechrau'r ddedfryd mewn ychydig dros hanner yr achosion. Roedd hyn yn gyfle a gollwyd i ymarferwyr gael dealltwriaeth wybodus o amgylchiadau cartref oedolion ifanc ac unrhyw faterion a allai fod yn effeithio arnynt. Ar ben hynny, mae ymweliadau cartref yn gyfle i gwrdd ag aelodau ehangach o'r teulu a'u cynnwys yn yr ymyriadau. Gall hyn wella'r gefnogaeth gyfannol a ddarperir i'r oedolyn ifanc.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd presenoldeb mewn apwyntiadau yn cael ei fonitro. Roedd ymarferwyr prawf yn cadw cysylltiad digonol â phobl eraill a oedd yn ymwneud â chyflwyno elfennau o'r ddedfryd, megis hwyluswyr rhaglenni a darparwyr CRS. Roedd y dull rhagweithiol hwn yn gyfle i ymyrryd yn gyflym os oedd pryderon yn dod i'r amlwg ynghylch cydymffurfio.

Roedd oedolion ifanc wedi cael eu hatgyfeirio at sefydliadau trydydd sector arbenigol mewn ychydig dros draean o'r achosion. Roedd y gyfradd atgyfeirio hon ar ei huchaf yn Newham, lle'r oedd gwasanaethau wedi'u cydleoli yn yr hwb. Roedd hyn yn galluogi staff i gyfuno gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned leol. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill, gwelsom ddiffyg gwybodaeth am ba wasanaethau oedd ar gael yn y gymuned. Yng nghyd-destun pryderon staff ynghylch cyfyngiadau darpariaeth CRS, roedd yn syndod gweld mai ychydig o ystyriaeth a roddwyd i sut y gallai gwasanaethau eraill gynnig cefnogaeth gynaliadwy i oedolion ifanc. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn cael eu hannog i beidio â bod yn greadigol fel hyn, gan na fyddai'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gwblhau diwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu. Roedd hyn fel petai'n anwybyddu'r ffaith y gallai'r gwasanaethau hyn helpu oedolion ifanc a chynnig cefnogaeth barhaus. Roeddent hefyd yn cyfeirio at risg fel rhwystr, gan ddweud pe na bai cytundebau lefel gwasanaeth ar waith, na fyddent yn gwneud atgyfeiriadau oherwydd pryderon am risg a'u bod yn ofni i rywbeth ddigwydd.

Dim ond 10 o'r oedolion ifanc yr arolygwyd eu hachosion a gwblhaodd raglenni achrededig. Ymhlith y rhain, llwyddodd saith i ymgysylltu a gwneud cynnydd sylweddol, ac ni wnaeth tri gynnydd digonol oherwydd diffyg ymgysylltu.

Darparwyd ymyriadau strwythuredig mewn dim ond tri achos, gyda dim ond un oedolyn ifanc yn ymgysylltu'n llwyddiannus. Ar ben hynny, dim ond mewn 40 o achosion y defnyddiwyd pecynnau cymorth, gyda 22 o'r rhain yn defnyddio'r pecyn cymorth Choices and Changes wedi'i dargedu'n benodol. Roedd ychydig dros eu hanner wedi gwneud cynnydd, ac roedd cydymffurfio yn broblem i'r gweddill.

Cyflwynodd y darparwr CRS sesiynau mewn 47 o achosion lle'r oedd atgyfeiriad wedi'i wneud, ond nid oedd 13 o oedolion ifanc a oedd wedi cael eu hatgyfeirio wedi derbyn gwasanaeth. Mewn traean o'r achosion, ni chafodd unrhyw atgyfeiriad ei wneud pan ddylai fod wedi cael ei wneud. Hefyd, nid oedd oedolion ifanc bob amser yn ymgysylltu â'r gwasanaethau a gynigiwyd iddynt drwy CRS. Roedd tua 30 y cant o'r 47 o oedolion ifanc a atgyfeiriwyd wedi gwneud cynnydd digonol.

Lle'r oedd yn ofynnol i oedolion ifanc gwblhau Gwaith Di-dâl, ni roddwyd digon o sylw i addasrwydd y lleoliad. Ar ben hynny, lle nodwyd aeddfedrwydd isel, cymerodd goruchwylwyr Gwaith Di-dâl gamau i gefnogi ymgysylltu a chydymffurfio mewn dim ond saith o'r 59 achos. Mewn rhai ardaloedd, tynnodd staff sylw at bryderon ynghylch anfon llythyrau gorfodi awtomatig os oedd oedolion ifanc yn colli sesiynau Gwaith Di-dâl a gwnaed hyn heb ymgynghori â nhw i weld a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r absenoldeb. Roedd ymarferwyr yn gallu cymryd camau i dynnu'r rhybudd yn ôl ar ôl iddo gael ei anfon os oeddent yn teimlo bod hyn yn briodol, ond nid oeddent bob amser yn gwneud hynny.

Mewn dros hanner yr achosion, rhoddodd ymarferwyr ddigon o sylw i anghenion penodol oedolion ifanc wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd yn gadarnhaol gweld eu bod, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi gwneud ymdrechion i alluogi'r oedolyn ifanc i gwblhau ei ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i ystyried ei amgylchiadau personol yn briodol. Fodd bynnag, mewn dros draean o'r achosion, cymerodd ymarferwyr gamau gorfodi pan oeddem yn teimlo y gellid bod wedi ystyried opsiynau eraill i geisio ailennyn diddordeb yr oedolyn ifanc. Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd y cynllun dedfrydu'n addas nac yn gyraeddadwy i'r oedolyn ifanc yn y lle cyntaf. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd bylchau mewn gwybodaeth a/neu ddiffyg dadansoddi a dealltwriaeth yn yr adroddiad llys a'r cam asesu cychwynnol. Nodwyd dull gweithredu ystyriol ar gyfer camau gorfodi yn yr enghraifft ganlynol:

| **Enghraifft o ymarfer da** |
|---|
| Yn Swydd Gaerloyw, roedd oedolyn ifanc a oedd yn wynebu amodau byw anhrefnus a nifer o wendidau yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu a chadw apwyntiadau. Dilynwyd y broses tor-amod, a rhestrwyd yr achos ar gyfer y llys. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau o'r teulu i gryfhau'r gefnogaeth ac annog ailymgysylltu. Roedd hyn yn llwyddiannus ac, ar sail y cynnydd a wnaed, tynnwyd y tor-amod yn ôl o'r llys. Roedd hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymgysylltu, cryfhau'r berthynas deuluol ac yn cydnabod y cynnydd yr oedd yr oedolyn ifanc wedi'i wneud. |

Roedd ymarferwyr wedi mabwysiadu dull gweithredu digon ystyriol o aeddfedrwydd wrth ddarparu dedfrydau mewn dim ond 36 o'r 65 achos cymunedol. Er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed gan staff i ymgysylltu ag oedolion ifanc, nid oeddent bob amser yn defnyddio'r cysylltiadau a ffurfiwyd i ganolbwyntio ar ymddygiad troseddol a materion sy'n ymwneud â'r risg o niwed. Nid oeddent chwaith yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr ymyriadau sydd eu hangen i gadw'r oedolyn ifanc yn ddiogel.

## 4.4. Adolygu a chanlyniadau

Nid oedd oedolion ifanc yn rhan gyson o'r broses adolygu, gan arwain at golli cyfleoedd i roi adborth iddynt ar gynnydd cadarnhaol neu i drafod sut i wella ymgysylltiad. Gall adborth, boed yn gadarnhaol neu'n adeiladol, fod yn arf pwerus ar gyfer ymgysylltu, yn enwedig ar gyfer oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, nad ydynt efallai wedi cael llawer o adborth yn eu bywydau.

Mae cynnwys oedolion ifanc yn y broses adolygu hefyd yn rhoi cyfle iddynt gynnig adborth ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, mynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt am y cynllun gwaith, tynnu sylw at unrhyw rwystrau a allai fod yn effeithio ar eu hymgysylltiad, a gofyn am unrhyw gymorth ychwanegol y maent yn teimlo sydd ei angen arnynt. Er bod modd mynd i'r afael â'r materion hyn mewn sesiynau goruchwylio, mae eu hystyried yng nghyd-destun cynllun ymyrryd yr oedolyn ifanc yn meithrin dull gweithredu mwy cydweithredol. Mae'n ystyried eu haeddfedrwydd, yn ogystal ag unrhyw heriau eraill y gwyddys eu bod yn fwy cyffredin yn y grŵp hwn.

Nid oedd adolygu bob amser yn canolbwyntio ar ddatblygu cryfderau a ffactorau amddiffynnol yn y ffordd y byddem wedi dymuno ei gweld. Nid oeddem chwaith yn gweld addasiadau'n cael eu gwneud i'r cynllun lle roedd angen y rhain, boed hynny mewn perthynas â chynnydd a wnaed neu mewn perthynas â phryderon cynyddol am risg. Roedd hyn yn gyfle a gollwyd i deilwra ymyriadau'n effeithiol a mynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg i gefnogi cynnydd ac adsefydlu'r oedolyn ifanc.

Erbyn yr adolygiad cyntaf, roedd 26 o oedolion ifanc wedi cael eu cyhuddo neu eu dyfarnu'n euog o drosedd newydd a oedd wedi digwydd ar ôl dedfrydu, ac roedd 12 wedi cael euogfarn neu ddatrysiad am droseddau a gyflawnwyd cyn y ddedfryd yr oeddem yn ei harchwilio. Dim ond traean o'r rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau a wnaeth gynnydd digonol o ran cael gafael ar gymorth ac ymgysylltu ag ef. Roedd llai na hanner yr oedolion ifanc a oedd angen cymorth iechyd meddwl yn ei gael. Roedd yna ddarlun tebyg ar gyfer cefnogaeth emosiynol a darparu gwaith i ddatblygu hunaniaeth pro-gymdeithasol. Roedd gwella cyswllt â theuluoedd wedi arwain at ganlyniadau arbennig o wael: dirywiodd y berthynas mewn tua 18 y cant o'r achosion perthnasol.

### Achosion trwydded

Arolygwyd 18 achos yn ymwneud ag oedolion ifanc dan oruchwyliaeth trwydded. Mewn 15 o achosion, roedd yr asesiad wedi ymdrin â'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd pwyslais ar nodi ffactorau cadarnhaol i helpu'r oedolyn ifanc i wneud mwy o gynnydd. Fodd bynnag, roedd gan lawer yn y grŵp hwn broffil risg uwch o niwed na'r rheini a oedd wedi cael dedfryd gymunedol, ac yn aml nid oedd digon o ffocws ar asesu ffactorau risg a dadansoddi sut byddent yn cael eu rheoli ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Gall aeddfedrwydd isel arwain at ymddygiadau fel byrbwylltra, y mae angen eu hystyried yng nghyd-destun troseddu, cymorth ac ymyrraeth. Ni chafodd hyn ei ystyried yn y rhan fwyaf o achosion ac roedd yr asesiad o'r risg a berir i eraill yn ddigonol mewn dim ond hanner yr achosion trwydded.

Mae oedolion ifanc sydd wedi bod yn y ddalfa yn aml wedi cael rhai o'r profiadau bywyd mwyaf heriol, gan gynnwys bod yn y carchar pan yn ifanc. Mae gadael y ddalfa fel arfer yn gyfnod risg uchel i'r unigolion hyn, ac efallai na fyddant bob amser yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Yn anffodus, roedd materion yn ymwneud â diogelwch a lles yn tueddu i gael eu hanwybyddu'n fwy yn achos yr oedolion ifanc hyn nag yn achos y rhai a oedd yn cael dedfrydau cymunedol. Ychydig o sylw a roddwyd i'w lefelau aeddfedrwydd i asesu a nodi aeddfedrwydd isel, ystyried ei effaith ar eu penderfyniadau ac ystyried sut i liniaru unrhyw risgiau cysylltiedig. Gwelsom fod digon o ffocws ar ddiogelwch a lles yr oedolyn ifanc mewn dim ond chwech o'r 18 achos.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Mae Ben wedi bod yn ymwneud â gofal cymdeithasol plant yn y gorffennol ac mae'n cael ei ystyried yn risg uchel gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Gwyddys ei fod mewn perygl o gael ei ecsbloetio gan bobl hŷn. Fodd bynnag, ychydig iawn o sylw mae'r asesiad yn ei roi i'w |

ddiogelwch a'i les. Nid yw amgylchiadau ei fywyd, lefel aeddfedrwydd a thrawma posibl yn cael eu hystyried mewn cynlluniau adsefydlu. Mae'r bylchau hyn yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd y gwasanaethau a'r ymyriadau cywir yn cael eu darparu ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa.

Roedd wyth o'r achosion trwydded a arolygwyd gennym yn cynnwys oedolion ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, sy'n tynnu sylw at yr hyn rydym eisoes yn ei wybod sy'n or-gynrychiolaeth broblemus o'r grŵp hwn. Ni ofynnwyd i unrhyw un am unrhyw brofiadau o wahaniaethu er mwyn deall ac asesu unrhyw effaith arnynt ac i ystyried hyn wrth ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer.

Mewn 11 o achosion, dedfrydwyd yr oedolyn ifanc i'r ddalfa heb adroddiad llys. Mewn achosion lle cynhyrchwyd adroddiad, yr oedd yn fwy tebygol o fod yn adroddiad fformat byr, nad oeddem yn ei ystyried fel yr un mwyaf priodol ar gyfer yr amgylchiadau. Roeddem o'r farn mai dim ond un o'r saith adroddiad a gynhyrchwyd a oedd o ansawdd digonol; roedd gan eraill fylchau mewn gwybodaeth a dadansoddiad cyfyngedig o amgylchiadau'r oedolyn ifanc. Mewn tri o'r achosion hyn, roedd yr oedolyn ifanc yn cael ei ddedfrydu am droseddau a gyflawnwyd cyn iddo fod yn 18 oed, a chafodd hanner ddedfryd o chwe mis neu lai. Er bod y rhan fwyaf o'r oedolion ifanc wedi bod yn hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a gofal cymdeithasol i blant, nid oedd llawer o dystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu gwneud i ddeall mwy am y cyswllt hwnnw.

### Ansawdd cynllunio dedfrydau

Mewn llai na hanner yr achosion trwydded a arolygwyd, gwnaeth yr ymarferydd prawf lefel ddigonol o gyswllt â'r oedolyn ifanc cyn ei ryddhau. Yn gyffredinol, roedd ansawdd cynllunio dedfrydau yn waeth nag ar gyfer rhai a oedd yn destun dedfrydau cymunedol, sy'n peri pryder. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn canolbwyntio ar adsefydlu ac yn deall unrhyw heriau y gallai oedolion ifanc eu hwynebu ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa os ydynt am eu helpu i ailintegreiddio'n llwyddiannus i gymdeithas ac osgoi aildroseddu. Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos hyn yn dda.

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae Kieran yn berson ifanc sy'n cael ei oruchwylio ar drwydded yn Hull ac East Riding. Roedd asesiad cynhwysfawr yn rhoi sylw i'w anghenion a'i amgylchiadau penodol. Roedd hyn yn cynnwys effaith aeddfedrwydd isel ar ei ymddygiad a'r risg o niwed, gan gydnabod y gallai hyn ddylanwadu ar ei allu i ymwneud â goruchwyliaeth. Mae'r asesiad yn nodi'n glir mai meithrin perthynas â Kieran a'i gymell i ymgysylltu â goruchwyliaeth trwydded fydd y brif flaenoriaeth. Mae'r gwaith o ddarparu ymyriadau wedi'i drefnu'n briodol, gyda'r cydbwysedd cywir rhwng mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, diwallu anghenion fel iechyd meddwl a hyrwyddo aeddfedrwydd drwy ddarparu'r pecyn cymorth Choices and Changes.

Drwy nodi'r ffactorau hyn sy'n gysylltiedig ag aeddfedrwydd, mae'r asesiad yn gosod y sylfaen ar gyfer cynllun wedi'i dargedu i fynd i'r afael ag anghenion Kieran a rheoli ei risgiau'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys darparu ymyriadau i ddatblygu rheolaethau mewnol ac i amddiffyn dioddefwyr posibl. Roedd rhannu gwybodaeth, gweithio ar y cyd a monitro risg gydag asiantaethau partner hefyd ar waith.

Oherwydd gwendidau sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau cartref Kieran, rhoddwyd cynlluniau llety addas ar waith i gefnogi ei ddiogelwch a'i les.

Mae gwella ansawdd cynllunio dedfrydau ar gyfer oedolion ifanc sy'n gadael y ddalfa yn gofyn am eu cyfranogiad a'u cyfraniad ystyrlon i'r broses. Bydd hyn yn hyrwyddo ymgysylltu ac yn nodi unrhyw rwystrau i gydymffurfio'n gynnar.

## 4.5. Gwaith pontio

Yn y sampl fach o achosion a arolygwyd lle'r oedd yr oedolyn ifanc wedi pontio'n uniongyrchol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gwelsom nad oedd ansawdd y cynllunio yn cefnogi proses bontio esmwyth i wasanaethau prawf i oedolion. Arweiniodd oedi wrth neilltuo'r achos i ymarferydd prawf at amser cyfyngedig ar gyfer cynllunio, sy'n elfen hanfodol o waith pontio effeithiol. Mae paratoi'r oedolyn ifanc ar gyfer y newid a rhoi cyfle iddo ddod i adnabod ei weithiwr newydd cyn trosglwyddo yn hanfodol er mwyn cefnogi a hyrwyddo ymgysylltiad parhaus. Mewn pedwar achos, ni welsom unrhyw gynllun pontio ar waith o gwbl, a arweiniodd at golli cyfleoedd i gynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, fel gwasanaethau iechyd, addysg a chyflogaeth, i gefnogi parhad goruchwyliaeth a gofal. Yn yr un modd, ni welsom lawer o dystiolaeth o deulu'r oedolyn ifanc yn ymwneud â chynllunio, nac unrhyw arwydd bod yr oedolyn ifanc wedi gofyn yn benodol iddynt beidio â chyfranogi.

Yn y rhan fwyaf o achosion lle'r oedd yr oedolyn ifanc yn destun gweithdrefnau diogelu plant, nid oedd eu gwendidau'n cael eu deall yn llawn, ac nid oedd unrhyw angen posibl i gynnwys diogelu oedolion, yn enwedig pan oedd gofal cymdeithasol plant yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl, yn cael ei ystyried fel mater o drefn. Ni wnaeth yr ymarferwyr gynnal archwiliadau gydag uned cam-drin domestig yr heddlu yn ystod y broses bontio. Yn yr unig achos lle cwblhawyd gwiriad, roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar yr oedolyn ifanc yn unig fel cyflawnwr posibl cam-drin domestig, yn hytrach nag ystyried y posibilrwydd y gallai fod yn byw mewn cartref treisgar.

Rhoddwyd sylw i ac ystyriwyd materion yn ymwneud ag amrywiaeth a nodweddion gwarchodedig mewn llai na hanner yr achosion. Mae deall anghenion oedolyn ifanc yn llawn yn hanfodol er mwyn hwyluso pontio llwyddiannus, gan ei fod yn caniatáu i'r ymarferydd wneud addasiadau angenrheidiol i'w ddull gweithredu a darparu ymyriadau'n effeithiol. O ystyried arwyddocâd y pontio a'r gwahaniaethau rhwng gwasanaethau, mae'n naturiol i oedolyn ifanc gael trafferth. Os na chaiff ei drin yn briodol, gallai hyn effeithio ar eu hymgysylltiad a'u cydymffurfiaeth, gyda chanlyniadau posibl iddyn nhw eu hunain ac, os oes risg wedi'i nodi i eraill, risg iddyn nhw hefyd.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Cafodd Harry ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf pan oedd yn 18 oed. Mae cofnodion yn dangos bod cyfarfod 'trosglwyddo' wedi cael ei gynnal rhwng Harry, ei reolwr achos GCI ac ymarferydd prawf. Ni chafodd gweithiwr cymdeithasol Harry ei gynnwys ac nid oedd nodyn o'r cyfarfod. Ni wnaed unrhyw gynllun penodol ar yr adeg pontio i helpu i ddeall pa waith yr oedd Harry wedi'i gwblhau ar ei orchymyn adsefydlu ieuenctid a sut yr oedd y gwasanaeth prawf yn mynd i adeiladu arno. |

## 4.6 Casgliadau a goblygiadau

Yn ystod ein hymgynghoriad ag oedolion ifanc, fe wnaethon nhw ddweud wrthym fod eu perthynas ag ymarferwyr prawf yn hanfodol i'w helpu i ymgysylltu â gwasanaethau prawf, cael gafael ar ymyriadau a chymorth, a chwblhau eu dedfrydau'n llwyddiannus. Iddyn nhw, mae'n aml yn 'dyngedfennol'. Roedd y ffocws ar feithrin perthnasoedd ystyrlon yn gryfder yn llawer o'r gwaith achos a arolygwyd gennym. Mae ymarferwyr wir eisiau'r gorau i oedolion ifanc, ac maen nhw'n llawn cymhelliant i weithio gyda nhw. Fodd bynnag, mae angen iddynt wneud mwy i sicrhau bod anghenion oedolion ifanc yn cael eu deall a'u diwallu, bod eu diogelwch a'u lles yn cael eu blaenoriaethu, a bod pobl eraill yn cael eu cadw'n ddiogel pan fydd materion risg wedi cael eu nodi.

Nid oedd pob oedolyn ifanc a fyddai wedi elwa o adroddiad llys wedi derbyn un. Lle'r oedd asesiadau aeddfedrwydd wedi'u cwblhau, nid oeddent yn gyson yn sail i gynigion dedfrydu. Yn gyffredinol, nid oedd digon o fanylion yn yr adroddiadau i gynorthwyo'r llys i ddod i'r penderfyniad dedfrydu mwyaf priodol y mae modd i'r oedolyn ifanc ei gyflawni ac sy'n debygol o fynd i'r afael â'r

pryderon a nodwyd a lleihau unrhyw broblemau risg. Er mwyn bod yn ystyrlon, rhaid dadansoddi'r wybodaeth hon yng nghyd-destun lefel aeddfedrwydd asesedig yr oedolyn ifanc.

Er i ni nodi enghreifftiau o arfer da, roedd y bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o arwyddocâd aeddfedrwydd a datblygiad yn cael effaith ar ansawdd y rhan fwyaf o agweddau ar y gwaith. Mae angen gwelliannau os yw'r uchelgais i weithio'n wahanol gydag oedolion ifanc, yn enwedig y rhai yr aseswyd bod ganddynt lefelau is o aeddfedrwydd, i'w gyflawni. Mae angen rhoi sylw arbennig i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc yn y ddalfa. Mae'r grŵp hwn yn aml yn wynebu'r heriau mwyaf. Maent yn agored i niwed, ac yn aml yn cael eu hasesu fel rhai sy'n peri risg fwy sylweddol i eraill. Mae cael pethau'n iawn pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa yn hanfodol os ydynt am lwyddo yn y gymuned.

Ym mhob agwedd ar y gwaith, mae angen canolbwyntio ar anghenion amrywiaeth oedolion ifanc, p'un ai oedran yw eu hunig nodwedd warchodedig i'w hystyried neu a oes ganddynt anghenion lluosog, cymhleth ac amrywiol. Mae hyn yn gofyn am ddull meddylgar ac ystyriol. Dylai ymarferwyr fod yn barod i drafod profiadau o wahaniaethu gydag oedolion ifanc a chynnig cymorth lle bo angen. Gellid cefnogi dull mwy creadigol gan wasanaethau allanol arbenigol. Mae gan nifer fawr o'r rhai a ddedfrydwyd fel oedolion gysylltiad helaeth â'r GCI a'r gwasanaethau plant, ac roedd y nifer fach o achosion a arolygwyd yn dangos bod angen i bobl ifanc fod wedi'u paratoi'n well ar gyfer symud i wasanaethau oedolion.

# Cyfeiriadau


Barrow Cadbury Trust (2005). Lost in Transition: A Report of the Barrow Cadbury Commission on Young Adults and the Criminal Justice System. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.t2a.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/Lost-in-Transition.pdf. (Cyrchwyd ar 21/10/2020)

Brewster, D. (2020). 'Not Wired Up? The Neuroscientific turn in Youth to Adult (Y2A) Transitions Policy', Youth Justice, 20(3), pp. 215-234.

Gwasanaeth Erlyn y Goron (2018) The Code for Crown Prosecutors. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Arolygiaeth Prawf EF (2012). Transitions: An inspection of the transitions arrangements from youth to adult services in the criminal justice system. Arolygiaeth Prawf EF: Manceinion. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/transitions-an-inspection-of-the-transitions-arrangements-from-youth-to-adult-services-in-the-criminal-justice-system-october-2012/. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Arolygiaeth Prawf EF (2016). Transitions arrangements: A follow up inspection. Arolygiaeth Prawf EF: Manceinion. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/transitions-followup/. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Arolygiaeth Prawf EF (2021). Race equality in probation: the experiences of Black, Asian and minority ethnic probation service users and staff. Arolygiaeth Prawf EF: Manceinion. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/race-equality-in-probation

Arolygiaeth Prawf EF (2023). Race equality in probation follow-up: A work in progress. Arolygiaeth Prawf EF: Manceinion. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2023/09/Race-equality-in-probation-follow-up-thematic-inspection-v1.0.pdf

Arolygiaeth Prawf EF (2024). The quality of work undertaken with women: A joint inspection by HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Prisons. Arolygiaeth Prawf EF: Manceinion. [Ar-lein] Ar gael yn: The quality of work undertaken with women : A joint inspection by HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)

HMPPS (2023). Care Experience Matters: A guide to how prisons, probation and local authorities can work together to support people with care experience in custody and on probation. (Cyrchwyd ar 01/04/2024)

HMPPS (2019). Young male adult offenders. [Ar-lein] Ar gael yn https://www.gov.uk/guidance/young-adult-male-offenders. (Cyrchwyd ar 01/12/2020)

Howard League for Penal Reform (2017). Judging Maturity: Exploring the role of maturity in the sentencing of young adults. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://howardleague.org/wp-content/uploads/2017/07/Judging-maturity.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Pwyllgor Cyfiawnder (2016). The treatment of young adults in the criminal justice system. Tŷ'r Cyffredin: Llundain. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmjust/169/169.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Pwyllgor Cyfiawnder (2018). Young adults in the criminal justice system. Tŷ'r Cyffredin: Llundain. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmjust/419/419.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Lammy Review (2017). Lammy Review: Final Report. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Cymdeithas yr Ynadon (2021). Maturity in the magistrates' court: Magistrates, young adults and maturity considerations in decision-making and sentencing. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.magistrates-association.org.uk/Portals/0/MA%20Maturity%20Report%20Feb%202021.pdf. (Cyrchwyd ar 23/04/2021)

Mendes, P., Baidawi, S., And Snow, P. (2014). Good Practice in Reducing the Over-Representation of Care Leavers in the Youth Justice System. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.academia.edu/download/34973019/Leaving_Care_and_Youth_Justice_-_Phase_3_Report.pdf. (Cyrchwyd ar 01/12/2020)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2015). Analytical Summary: Needs and characteristics of young adults in custody: Results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) survey. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/449586/Young-adults-in-custody.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2016). Prison safety and reform. [Ar-lein] Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/prison-safety-and-reform. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (2015a). Better Outcomes for Young Adult Men: Evidence Based Commissioning Principles. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/462169/Better_Outcomes_for_Young_Adult_Men__P1_1_.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (2015b). Better Outcomes for Women Offenders. [Ar-lein] Ar gael ynhttts://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457922/Better_Outcomes_for_Women_Offenders_September_2015.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Price, J. (2020). 'The experience of young people transitioning between youth offending services to probation services', Probation Journal, 67(3), pp. 246-263.

Cyngor Dedfrydu (2019). General guideline: overarching principles. [Ar-lein] Ar gael yn https://www.sentencingcouncil.org.uk/overarching-guides/magistrates-court/item/general-guideline-overarching-principles/. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2009). A new start: Young adults in the criminal justice system. [Ar-lein] Ar gael yn https://barrowcadbury.org.uk/wpontent/uploads/2011/01/T2A-A-New-Start-Young-Adults-in-the-Criminal-Justice-System-2009.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2011). Sentencing young adults: Getting it right. [Ar-lein] Ar gael yn https://barrowcadbury.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/CJAgettingitright1.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2013). Fact File 2, Young adults today – Education, training and employment and young adults in the criminal justice system. [Ar-lein] Ar gael yn https://t2a.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/FACT-FILE-2.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2015). Effective approaches with young adults: a guide for probation services. [Ar-lein] Ar gael yn https://t2a.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/Probation-guide_Ver4_sml.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2016a). Meeting the needs of young adult women in custody. [Ar-lein] Ar gael yn https://t2a.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Young-Adult-Women-in-Custody_LR2.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2016b). Traumatic brain injury and offending – An economic analysis. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://t2a.org.uk/wpcontent/uploads/2016/07/Centre-for-Mental-Health-Traumatic-brain-injury-and-offending-July-2016.pdf. (Cyrchwyd ar 05/12/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2020). Bridging the gaps: New approaches to improving outcomes for care experienced young people given prison sentences. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://t2a.org.uk/wp-content/uploads/2020/08/BridgingTheGaps_FINAL-screen-spreads.pdf. (Cyrchwyd ar 01/12/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2020b). Evidence briefing: Racial bias is pulling Black young adults into the revolving door. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://t2a.org.uk/wp-content/uploads/2020/08/Evidence-Racial-bias-is-pulling-young-adults-in-the-revolving-door-FINAL-1.pdf. (Cyrchwyd ar 01/12/2020)

T2A: Transition to Adulthood Alliance (2020c). Judging Maturity: exploring the role of maturity in the sentencing of young adults. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://t2a.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/JudgingMaturity2020.pdf. (Cyrchwyd ar 01/12/2020)

Y Cenhedloedd Unedig (1985). United Nations Standard Minimum Rules for the Administration of Juvenile Justice ("The Beijing Rules"). [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/beijingrules.pdf. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Williams, W.H., Chitsabesan, P., Fazel, S., McMillan, T., Hughes, N., Parsonage, M. and Tonk, J. (2018) 'Traumatic brain injury: a potential cause of violent crime?', The Lancet: Psychiatry, 5(10), pp.836-844

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019). Standards for children in the youth justice system 2019. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: Llundain. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018). Joint national protocol for transitions in England. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: Llundain. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.gov.uk/government/publications/joint-national-protocol-for-transitions-in-england. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2015). Youth to adult transition principles and guidance for Wales. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: Llundain. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://www.gov.uk/government/publications/youth-to-adult-transition-principles-and-guidance-for-wales. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

Young Minds (2013). Same Old... the experiences of young offenders with mental health needs. [Ar-lein] Ar gael ynhttps://barrowcadbury.org.uk/wp-content/uploads/2013/12/YoungMinds-Same-Old...-2013-low-res.pdf. (Cyrchwyd ar 23/04/2021)

Young Review (2012). The Young Review: Improving outcomes for young Black and/or Muslim men in the Criminal Justice System. [Ar-lein] Ar gael yn https://www.equalcjs.org.uk/young-review-report. (Cyrchwyd ar 01/10/2020)

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Achrededig** | Rhaglen waith a gyflwynir i droseddwyr mewn grwpiau neu'n unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu fel rhan o ddedfryd o garchar neu amod mewn trwydded carchar. Adolygir y rhaglenni gan y Panel Cyngor ac Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAAP), a all wedyn argymell i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) y dylid dyfarnu statws achrededig i raglen. Mae rhaglenni wedyn yn cael eu hachredu gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn uniongyrchol. |
| **Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE)** | Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd sy'n digwydd yn ystod plentyndod a/neu'r glasoed. sy'n achosi straen mawr, ac yn gallu bod yn drawmatig. Gallant fod yn un digwyddiad, neu'n fygythiadau estynedig i ddiogelwch, diogeledd, ymddiriedaeth neu uniondeb corfforol y person ifanc. |
| **Person sy'n gadael gofal** | Daw'r diffiniad cyfreithiol o berson sy'n gadael gofal o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, sy'n datgan bod person sy'n gadael gofal yn rhywun sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos neu fwy, sy'n cynnwys ei ben-blwydd yn 16 oed. |
| **Cynllun plentyn mewn angen** | Mae cynllun plentyn mewn angen yn cynnwys y gefnogaeth sy'n cael ei darparu i blentyn a/neu deulu gan wasanaethau plant. |
| **Amddiffyn plant** | Gwaith i sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg y bydd plentyn yn dioddef niwed. |
| **Ecsbloetio plant yn droseddol** | Mae ecsbloetio plant yn droseddol yn digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, i reoli, i ddefnyddio neu i dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 oed. Mae'n bosibl bod y plentyn wedi cael ei ecsbloetio'n droseddol hyd yn oed os yw'n ymddangos ei fod wedi cytuno i'r gweithgaredd. |
| **Rhaglen Choices and Changes** | Pecyn adnoddau HMPPS i ymarferwyr prawf neu reolwyr troseddwyr mewn carchardai ei ddefnyddio mewn sesiynau un-i-un gydag oedolion ifanc y nodwyd bod ganddynt aeddfedrwydd seicogymdeithasol isel. Nod yr ymarferion yn y pecyn yw annog ymgysylltu a helpu oedolion ifanc i ddatblygu eu haeddfedrwydd. |
| **Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth** | Gwaith i wella dysgu unigolyn, a gwella ei ragolygon o ran cyflogaeth. |
| **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS)** | Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am wasanaethu'r carchardai a phrawf. |
| **Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM)** | Mae IOM yn golygu ymateb traws-asiantaethol i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf mynych a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd. |
| **Adnodd sgrinio aeddfedrwydd** | Mae'r adnodd sgrinio aeddfedrwydd yn asesiad 10 eitem a luniwyd i helpu ymarferwyr i nodi'r unigolion hynny sydd â lefelau aeddfedrwydd is sydd fwyaf angen cymorth. |

| | |
|---|---|
| **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **OASys** | System asesu troseddwyr sy'n cael ei defnyddio yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf ar hyn o bryd i fesur risgiau ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. |
| **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | Gellir defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer plant sydd wedi cyfaddef trosedd, ond nid yw erlyn er budd y cyhoedd gan nad yw bob amser yn briodol i blant sy'n cyflawni trosedd gael eu hanfon i'r llys. Efallai y byddai'n briodol i'r heddlu a'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ystyried datrysiad y tu allan i'r llys. |
| **Partneriaid** | Mae'r partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, sy'n gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Prawf. |
| **Darparwyr** | Mae darparwyr yn darparu gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynir ac a ddarperir dan gontract i'r Gwasanaeth Prawf. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau a ddarperir dan y contract, hyd yn oed pan gânt eu hintegreiddio neu eu lleoli o fewn y Gwasanaeth Prawf. |
| **Adroddiad Cyn-Dedfrydu (PSR)** | Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, boed ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig. |
| **Swyddog Prawf (PO)** | Dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol 'cymwys' sydd wedi dilyn cwrs addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio, yn dibynnu ar pryd y cafodd ei gynnal. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth. |
| **Swyddog Gwasanaethau Prawf (PSO)** | Dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio'n wreiddiol heb unrhyw gymhwyster. Gallant gael hyfforddiant a bennir yn lleol i gymhwyso fel PSO neu adeiladu ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Efallai y byddant yn rheoli pob achos heblaw yr achosion mwyaf cymhleth, yn dibynnu ar lefel eu hyfforddiant a'u profiad. Mae rhai PSOs yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu. |
| **Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu (RAR)** | O fis Chwefror 2015, pan roddwyd y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr ar waith, gall llysoedd bennu nifer o ddiwrnodau RAR mewn gorchymyn; mater i'r gwasanaethau prawf yw penderfynu ar yr union waith sydd i'w wneud yn ystod y diwrnodau RAR hyn. |
| **Ymarfer sy'n ystyriol o drawma** | Mae dulliau sy'n ystyriol o drawma wedi cael eu dyfynnu fwyfwy mewn polisi a'u mabwysiadu'n ymarferol fel ffordd o leihau effaith negyddol profiadau o drawma a chefnogi canlyniadau iechyd meddwl a chorfforol. Maent yn adeiladu ar dystiolaeth a ddatblygwyd dros sawl degawd. Fodd bynnag, mae diffyg consensws wedi bod yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ynghylch sut mae arferion sy'n seiliedig ar drawma yn cael eu diffinio, beth yw eu prif egwyddorion a sut gellir eu hymgorffori mewn gwasanaethau a systemau. |

## Atodiad 2: Methodoleg

Roedd yr arolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

**A yw llywodraethiant ac arweinyddiaeth y PDU yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyflawni gwasanaethau ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer oedolion ifanc?**

- A oes gweledigaeth a strategaeth effeithiol sy'n pennu'r cyfeiriad ac yn gyrru'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i oedolion ifanc?
- A oes dadansoddiad digonol o anghenion, risgiau a nodweddion oedolion ifanc?
- A yw trefniadau comisiynu yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau i oedolion ifanc?
- A oes trefniadau llywodraethu effeithiol a chynlluniau cyflawni clir sy'n trosi'r weledigaeth a'r strategaeth yn oruchwyliaeth achosion effeithiol ar gyfer oedolion ifanc?
- A yw gweithredu ac effaith y strategaeth ar gyflawni yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd?
- A oes trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith ar lefel strategol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig i gefnogi anghenion oedolion ifanc?

**A yw staff y gwasanaeth wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaethau ymatebol, personol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc?**

- A yw llwyth gwaith ymarferwyr a rheolwyr yn rhesymol i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc?
- A yw ymarferwyr yn cael arweiniad, datblygiad, cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol i allu gweithio ag oedolion ifanc?
- A yw achosion yn cael eu dyrannu i staff sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i weithio gydag oedolion ifanc?
- A oes sesiwn gynefino effeithiol ar gyfer staff sy'n rhoi sylw i waith gydag oedolion ifanc?
- A yw'r staff wedi cael digon o hyfforddiant i'w harfogi i weithio'n effeithiol gydag oedolion ifanc?

**A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n galluogi darpariaeth bersonol ac ymatebol i ddiwallu anghenion oedolion ifanc?**

- A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a chyfredol o broffil oedolion ifanc i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u diwallu?
- Sut mae trefniadau partneriaeth yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion oedolion ifanc, hyrwyddo eu lles a chadw pobl eraill yn ddiogel?
- A yw'r Gwasanaeth Prawf yn meddu ar nifer, ystod ac ansawdd y gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir, i ddiwallu anghenion oedolion ifanc?
- A yw staff prawf yn defnyddio pecynnau cymorth ac ymyriadau perthnasol sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer oedolion ifanc, fel sy'n briodol?

**A yw gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer oedolion ifanc?**

- A yw'r dadansoddi, y dystiolaeth a'r dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sbarduno gwelliant mewn gwasanaeth i oedolion ifanc?

- A yw prosesau'n cael eu defnyddio i gasglu barn oedolion ifanc er mwyn deall eu profiadau o'r gwasanaethau y maent wedi'u derbyn? Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i sbarduno gwelliannau?
- A yw'r polisïau angenrheidiol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i oedolion ifanc yn eu lle ac yn cael eu deall gan y staff y maent yn berthnasol iddynt?
- A yw'r staff yn deall sut i gael gafael ar y gwasanaethau iawn gan bartneriaid a darparwyr, er mwyn diwallu anghenion oedolion ifanc?
- A oes prosesau rhannu gwybodaeth perthnasol ar waith gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn amserol?

**A yw'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol, ac a yw'n ystyried oedran ac aeddfedrwydd ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau teg a gwrthrychol?**

- A yw oedolion ifanc yn cael eu cynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o baratoi'r adroddiadau, ac a yw eu safbwyntiau'n cael eu hystyried?
- A yw'r cyngor yn ystyried aeddfedrwydd, amrywiaeth, amgylchiadau personol ac unrhyw rwystrau strwythurol?
- A yw'r cynigion yn briodol?
- A oes proses ar gyfer adroddiadau sicrhau ansawdd ac a yw hyn yn cyfeirio at oedolion ifanc?

**A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion oedolion ifanc, ffactorau amrywiaeth, rheoli risg a deall rhwystrau i ymgysylltu?**

- Sut mae asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeall a mynd i'r afael ag anghenion, lles a risg oedolion ifanc, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a allai effeithio ar eu hymgysylltiad ag ymyriadau?
- Yn yr achosion unigol a arolygwyd, a oedd camau gorfodi (er enghraifft torri amodau, galw'n ôl a llythyrau rhybuddio) yn cael eu cymhwyso'n briodol ac yn deg?
- A yw'r gwerthusiad o ganlyniadau cynnar ar gyfer oedolion ifanc yn gadarnhaol, gan ddangos cynnydd mewn perthynas ag ymgysylltu, ymatal, llesiant, a diogelwch pobl eraill?

### Gwaith Maes

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024, roeddem wedi edrych ar ansawdd y gwaith a ddarparwyd gan unedau cyflawni prawf yn Bury a Rochdale; Newham; Lerpwl; Swydd Gaerloyw; Caerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland; a Hull ac East Riding. Dewiswyd ardaloedd yn bennaf oherwydd nifer yr oedolion ifanc yn eu baich achosion.

Fe wnaethom adolygu 115 o achosion o oedolion ifanc rhwng 18 a 21 oed a oedd dan oruchwyliaeth gymunedol ac a oedd wedi cael eu dedfrydu i'r ddalfa neu wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn y 12 mis cyn ein gwaith maes. Ar ben hynny, roeddem wedi archwilio naw achos lle'r oedd oedolion ifanc wedi pontio o'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (GCI) i'r gwasanaeth prawf ac wedi asesu ansawdd 73 o adroddiadau llys. Ni wnaethom adolygu ffeiliau achos y GCI nac arolygu ansawdd eu gwaith pontio. Nid ydym wedi arolygu na rhoi sylwadau ar ansawdd y gwaith a wnaed gydag oedolion ifanc yn y ddalfa.

Buom yn cyfweld â 78 o ymarferwyr prawf sy'n dal achosion, staff arbenigol, rheolwyr canol ac uwch reolwyr, arweinwyr oedolion ifanc cenedlaethol, ac asiantaethau partner. Ar ben hynny, fe wnaethom gynnal cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr yn nhimau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS).

Cyn y gwaith maes, roeddem wedi cysylltu â'r GCI lleol i ofyn a oeddent wedi gweithio gyda'r oedolion ifanc unigol yn y gorffennol ac a oedd yr oedolion ifanc wedi cael cyswllt â gwasanaethau

cymdeithasol plant yn y gorffennol. Gwnaethom hyn i asesu ansawdd rhannu gwybodaeth ac i ganfod a oedd ymarferwyr prawf wedi ystyried profiadau cefndir yr oedolion ifanc.

Gwnaethom ymgysylltu â gwasanaethau Llais y Defnyddiwr i gynnal arolygon a chyfweliadau gyda 259 o oedolion ifanc ar ein rhan, gan gasglu eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a gawsant gan y gwasanaeth prawf.

**Nodweddion y prif sampl prawf**

| Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 18 | 8 | 7 |
| 19 | 38 | 33 |
| 20 | 36 | 31 |
| 21 | 33 | 29 |
| **Rhyw** | **Nifer** | **%** |
| Gwryw | 94 | 82 |
| Benyw | 17 | 15 |
| Heb ei gofnodi'n glir | 4 | 3 |
| Arall | 0 | 0 |
| **Categori hil ac ethnigrwydd** | **Nifer** | **%** |
| Gwyn | 73 | 64 |
| Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig | 31 | 27 |
| Grwpiau eraill | 4 | 4 |
| Heb ei gofnodi'n glir | 6 | 5 |
| **Oes gan y person ar brawf anabledd?** | **Nifer** | **%** |
| Oes | 44 | 39 |
| Na | 56 | 49 |
| Ddim yn glir | 14 | 12 |
| **Math o achos sy'n cael ei archwilio?** | **Nifer** | **%** |
| Trwydded | 18 | 16 |
| Goruchwyliaeth ar ôl dedfryd | 5 | 4 |
| Gorchymyn cymunedol | 55 | 48 |
| Gorchymyn dedfryd ohiriedig | 30 | 26 |
| Gorchymyn adsefydlu pobl ifanc | 6 | 5 |
| Dedfryd o garchar Adran 91/250 | 1 | 1 |